# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

# DATGANIAD CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

# STATEMENT OF ACCOUNTS FOR YEAR ENDED 31 MARCH 2023


**L Hull CPFA**
**Prif Swyddog Cyllid**
**Chief Finance Officer**

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| *Adroddiad Naratif* | 1 – 21 |
| *Datganiad Llywodraethu Blynyddol* | 22 - 73 |
| *Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol* | 73 - 76 |

**ADRODDIAD NARATIF**

## Cyflwyniad

Wedi'i lleoli ym Mlaenau'r Cymoedd, o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru, gyda phoblogaeth o tua 61,000 ac ardal o tua 11,000 hectar, gyda 2,300 hectar ohono o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Yr Awdurdodau Lleol cyfagos yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (i'r gorllewin a'r de-orllewin), Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (i'r dwyrain a'r de-ddwyrain) a Chyngor Sir Powys (i'r gogledd). Mae'r A470 (gogledd-de) a'r A465 (dwyrain-gorllewin) yn cwrdd i'r gogledd-orllewin o Ferthyr Tudful a hwy yw prif ffyrdd y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r Fwrdeistref Sirol yn meddu ar ddaeareg gyfoethog a chymysgedd o gynefinoedd o ansawdd uchel sydd wedi'u dylanwadu gan ddiwydiannau'r gorffennol. Ar ôl bod y ganolfan fwyaf cynhyrchiol yn y byd am greu haearn, mae arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y Fwrdeistref Sirol yn treiddio'n ddwfn.

Mae Merthyr Tudful, y brif dref, yn gorwedd tua 20 milltir i'r gogledd o Gaerdydd a hi yw'r brif ganolfan adwerthu a gwasanaethu ym Mlaenau'r Cymoedd a thrwy hynny, mae'n cyflawni rôl strategol allweddol.

## Strwythur y Sefydliad

Mae'r Cyngor yn cynnwys 30 Aelod Etholedig sy'n cynrychioli 11 o adrannau etholiadol a'r cydbwysedd gwleidyddol ar 31 Mawrth 2023 oedd 15 Aelod Annibynnol a 15 Aelod Llafur. Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am gymeradwyo a mabwysiadu Cyllideb a Fframwaith Polisi'r Awdurdod, hynny yw y cynlluniau a'r strategaethau.

Y Cabinet sy'n gyfrifol am gymryd y rhan fwyaf o'r penderfyniadau pwysig ond rhaid iddynt fod yn unol â pholisïau a chyllideb gyffredinol y Cyngor. Ar 31 Mawrth 2023, roedd y Cabinet yn cynnwys 6 Aelod Cabinet dan arweiniad Arweinydd y Cyngor fel Cadeirydd sydd hefyd â chyfrifoldeb am y Portffolio Tai ac Adfywio. Dyma Bortffolios y Cabinet:

- Addysg
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cymdogaeth
- Tai ac Adfywio
- Diogelu'r Cyhoedd, Trosedd ac Anhrefn
- Llywodraethu ac Adnoddau
- 

Mae'r Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio yn darparu graddau pellach o herio a chraffu.

Caiff yr Aelodau Etholedig eu cynorthwyo gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor dan arweiniad y Prif Weithredwr ac mae'r tîm yn cynnwys y Cyfarwyddwyr canlynol:

- Dirprwy Brif Weithredwr – cefnogi'r Aelod Cabinet dros Dai ac Adfywio, ac yn gyfrifol am adfywio cymunedol, masnacheiddio, cyflogadwyedd a thai a'r Aelod Cabinet dros Ddiogelu'r Cyhoedd, Trosedd ac Anhrefn ac yn gyfrifol am ddiogelu'r cyhoedd a throsedd ac anhrefn.
- Cyfarwyddwr Addysg – yn cynorthwyo'r Aelod Cabinet dros Addysg ac yn gyfrifol am ysgolion ac addysg

- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – yn cynorthwyo'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac yn gyfrifol am wasanaethau plant, gwasanaethau oedolion, diogelu a gwasanaethau ieuenctid
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdogaeth – yn cynorthwyo'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac yn gyfrifol am sbwriel a gwastraff, priffyrdd a pheirianneg, cynllunio a chefn gwlad, gwasanaethau profedigaeth, cynnal a chadw tir, glanhau strydoedd a rheoli fflyd
- Cyfarwyddwr Llywodraethu ac Adnoddau – yn cynorthwyo'r Aelod Cabinet dros Lywodraethu ac Adnoddau ac yn gyfrifol am gyllid, gwasanaethau cyfreithiol a democrataidd, polisi a gwella, adnoddau dynol strategol a chyfathrebu ac ymgynghori. Mae'r swydd hon yn wag ar hyn o bryd.

## Amcanion Llesiant Corfforaethol

Cadarnhawyd bod Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor 2023/24 i 2026/27, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 8 Mawrth 2023, yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn cynnwys saith nod llesiant:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Wrth bennu ei Amcanion Llesiant, rhaid i'r Cyngor ddangos y ffordd y mae wedi cymhwyso'r egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth gyd-fynd â'r 5 ffordd o weithio sef: hirdymor, atal, integreiddio, cynnwys a chydweithio.

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae gofyn i'r cyngor gyflawni'i ddyletswydd statudol a chyhoeddi 'Datganiad Llesiant' a 'Chynllun Ffocws ar y Dyfodol'. Cymeradwywyd y dogfennau hyn gan y Cyngor ar 17 Ebrill 2019 gyda'r 'Datganiad Llesiant' yn nodi Amcanion Llesiant lleol y Cyngor ar gyfer y gymuned dros y cyfnod pum mlynedd o 2017 i 2022, a'r 'Cynllun Ffocws ar y Dyfodol' yn manylu ar sut a beth fydd y Cyngor yn ei wneud i gyflawni'r Amcanion Llesiant. Dyma Amcanion Llesiant lleol y Cyngor:

1. **Dechrau'n Dda** - mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau ac yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus
2. **Bywyd Gwaith** - mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion busnesau, gyda seilwaith diogel a datblygol sy'n sefydlu Merthyr Tudful fel cyrchfan deniadol
3. **Llesiant Amgylcheddol** – mae cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo ein hamgylchedd a'n cefn gwlad
4. **Byw'n Dda** – mae pobl wedi'u grymuso i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da

Gwnaeth Cyngor 21 Ebrill 2021 gymeradwyo'r dogfennau 'Datganiad Llesiant' a 'Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned', gan ailddatgan y 4 amcan llesiant lleol ar gyfer cyfnod 5 mlynedd 2017 i 2022. Yn ychwanegol, cafodd dwy strategaeth bellach eu hintegreiddio i'r Cynllun Llesiant Corfforaethol, sef Strategaeth Trechu Tlodi a'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella. Cymeradwywyd cadarnhad parhaus y pedwar amcan llesiant presennol gan Gyngor 2 Mawrth 2022.

Mae gwaith a wnaed gan y Cyngor i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn parhau i fod yn addas i'r diben wedi arwain at adnewyddu'r ffocws ar gyfer y cyfnod 2023-2028, gyda'r amcanion diwygiedig canlynol:

1. **Merthyr Tudful Uchelgeisiol yn canolbwyntio ar ddysgu**
   *Byddwn yn cryfhau sut rydym yn galluogi pobl i dyfu a chyrraedd eu potensial.*
2. **Merthyr Tudful Iachach**
   *Byddwn yn grymuso pobl i fyw bywydau annibynnol ac urddasol.*
3. **Merthyr Tudful Ddiogel a Ffyniannus**
   *Byddwn yn cefnogi sut mae ein heconomi yn adfer ac yn tyfu.*
4. **Merthyr Tudful Lân a Gwerdd**
   *Byddwn yn cefnogi creu amgylchedd diogel, glân a gwyrdd nawr ac yn y dyfodol.*

Cymeradwywyd yr amcanion hyn gan y Cyngor Llawn ar 19 Ebrill 2023 o fewn Datganiad Llesiant 2023-28 a Chynllun Corfforaethol 2023-28 (Gweithredu Heddiw ar gyfer Gwell Yfory).

## Perfformiad yn Erbyn yr Amcanion Llesiant

Cymeradwywyd Adroddiad Hunanasesu Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2021/22 gan y Cyngor ar 9 Tachwedd 2022. Cafodd y dyfarniadau canlynol eu hadrodd yn erbyn yr amcanion llesiant:

- Dechrau Gorau i Fywyd – digonol
- Bywyd Gwaith - da
- Llesiant Amgylcheddol – digonol
- Byw'n Dda - da

Yn ogystal, penderfynwyd bod Llywodraethu ac Adnoddau yn ddigonol.

Yn seiliedig ar y dyfarniadau a ddynodwyd yn y pedair thema llesiant, y dyfarniad cyffredinol oedd 'digonol' gyda mwy o gryfderau na gwendidau, ond bod angen gwella agweddau pwysig. Yr uchelgais yw gallu darparu'r data a'r dystiolaeth i symud at ddyfarniad o dda ar gyfer adroddiad Hunanasesu 2022/23.

O dan Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol 2021, mae'r adroddiad Hunanasesu yn disodli'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol blaenorol ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 24 Hydref 2022 cyn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 9 Tachwedd 2022. Mae'r adroddiad Hunanasesu yn adlewyrchu cynnydd o dri safbwynt:

- Allanol
- Mewnol
- Rheoleiddio a phartneriaid

Yn unol â Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol 2021, yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor, aethpwyd â'r Adroddiad Hunanasesu cymeradwy yn ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Chwefror 2023 i'w nodi.

## Datganiadau Ariannol Craidd

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno Datganiad o Gyfrifon ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen 31 Mawrth 2023. Cafodd ei pharatoi yn unol â Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23.

Mae’r datganiadau ariannol – ynghyd â’r Datganiad o Gyfrifoldebau, Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol, a nodiadau esboniadol – i’w gweld ar dudalennau 23 i 106, ac maent yn cynnwys:

Dadansoddiad o Wariant a Chyllido

Mae’r Dadansoddiad o Wariant a Chyllido yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a’i ariannu o adnoddau (grantiau’r llywodraeth, rhenti, y dreth gyngor ac ardrethi busnes) gan awdurdodau lleol o gymharu â’r adnoddau hynny y mae awdurdodau yn eu defnyddio neu’u hennill, yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae’n dangos sut y caiff y gwariant hwn ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng cyfarwyddiaethau’r Cyngor. Cyflwynir yr incwm a’r gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn llawnach yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant.

Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant

Mae'r datganiad hwn yn hanfodol i ddeall gweithgareddau awdurdod lleol, gan ei fod yn nodi cost net am y flwyddyn o'r holl swyddogaethau y mae awdurdod yn gyfrifol amdanynt, ac yn dangos sut y mae'r gost honno wedi'i hariannu gan grantiau llywodraeth cyffredinol ac incwm trethdalwyr lleol. Mae'n dwyn ynghyd y gwariant a’r incwm sy'n gysylltiedig â holl swyddogaethau’r awdurdod lleol. Mae'n dangos y gost gyfrifyddu o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar wahanol gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Dadansoddir y rhain fel ‘cronfeydd defnyddiadwy’ (sef y rhai a all gael eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau trethi lleol), a ‘chronfeydd annefnyddiadwy’ eraill. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yng nghronfeydd wrth gefn yr awdurdod yn cael eu dadansoddi rhwng enillion a cholledion a gafwyd yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol a'r addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd i'r symiau sy'n daladwy i'r dreth gyngor (neu renti) am y flwyddyn. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau’r Balans Cronfa Gyffredinol statudol yn ystod y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hynny.

Mantolen

Mae'r datganiad hwn yn hanfodol i ddeall sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar Ddyddiad y Fantolen gan ei fod yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod (sef yr asedau, llai’r rhwymedigaethau) yn cyfateb i gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Mae’r cronfeydd wrth gefn yn cael eu cyflwyno mewn dau gategori:

- Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy – mae’r rhain yn gronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd, er enghraifft, gellir defnyddio’r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyledion yn unig.

- Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddadwy - mae’r rhain yn gronfeydd na all yr Awdurdod mo’u defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion

a cholledion heb eu gwireddu, er enghraifft y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, lle byddai symiau'n dod ar gael i ddarparu gwasanaethau pe bai asedau'n cael eu gwerthu, a'r cronfeydd wrth gefn sy'n dal y gwahaniaethau amser a ddangosir yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Datganiad Llif Arian

Mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r mewnlifau a'r all-lifau arian sy'n deillio o drafodion gyda thrydydd partïon at ddibenion refeniw a chyfalaf. Mae'n dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerthoedd arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chyfwerthoedd arian trwy ddosbarthu llifoedd arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido.

## Perfformiad Ariannol 2022/23

Mae strwythur yr Awdurdod yn cynnwys chwe Chyfarwyddiaeth:

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Addysg
- Yr Economi a Diogelu'r Cyhoedd
- Gwasanaethau Cymdogaeth
- Llywodraethu ac Adnoddau
- Corfforaethol


Mae'r meysydd gwasanaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Cyfarwyddiaethau hyn i'w gweld yn Adran Alldro Refeniw'r Gyllideb yn yr Adroddiad Naratif hwn.

Mae'r canlynol yn dangos, yn fras, weithgareddau refeniw'r Awdurdod am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, hynny yw, ffynhonnell a gwariant yr arian.

O Ble y Daw'r Arian


| **Disgrifiad** | **£'000** | **%** |
|---|---|---|
| Grantiau Llywodraeth | 141,166 | 67 |
| Rhentiau a Thaliadau | 16,510 | 8 |
| Talwyr y Dreth Gyngor | 26,891 | 13 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | 21,226 | 10 |
| Incwm Arall | 5,106 | 2 |
| **Cyfanswm** | **210,899** | **100** |

Yr eitem unigol fwyaf yw Grantiau'r Llywodraeth sy'n darparu 67% o'r cyfanswm, tra bod 8% yn dod o'r gwasanaethau a ddarperir trwy renti, ffioedd a thaliadau. Dim ond 13% o gyfanswm yr incwm a ddaw o'r Dreth Gyngor.




Sut y Caiff yr Arian ei Wario


| **Disgrifiad** | **£'000** | **%** |
|---|---|---|
| Costau Cyflogeion | 92,139 | 44 |
| Costau Rhedeg | 108,283 | 50 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 7,425 | 4 |
| Ardollau | 3,378 | 2 |
| **Cyfanswm** | **211,225** | **100** |




Costau rhedeg megis cynnal adeiladau, gweithredu cerbydau a phrynu cyflenwadau a gwasanaethau yw 50% o gyfanswm y gwariant, tra bo gwariant y gellir ei briodoli i gyflogeion yn cyfateb i 44%.

Y Gwasanaethau a Ddarperir

| Disgrifiad | £'000 | % |
|---|---:|---:|
| Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | 56,735 | 27 |
| Y Gyfarwyddiaeth Addysg | 73,213 | 35 |
| Yr Economi a Diogelu'r Cyhoedd | 25,601 | 12 |
| Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdogaeth | 18,881 | 9 |
| Y Gyfarwyddiaeth Llywodraethu ac Adnoddau | 11,471 | 5 |
| Corfforaethol | 25,324 | 12 |
| **Cyfanswm** | **211,225** | **100** |




## Canlyniadau a Adroddwyd yn y Datganiad Cyfrifon

Roedd y cyfansymiau ar gyfer incwm a gwariant yn yr adran flaenorol yn deillio o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 24, ond nid ydynt yn cynnwys:

- y praesept a gasglwyd yn y Dreth Gyngor ar gyfer Heddlu De Cymru (£5.615 m ar gyfer 2022/23, Nodyn 11),
- cyfran yr Awdurdod o gyd-bwyllgorau (mae'r manylion i'w gweld yn Nodyn 40 y cyfrifon),
- grantiau cyfalaf a thrafodion (rydym yn adolygu ein prosiectau cyfalaf ar dudalen 11),
- cofnodion eraill nad ydynt yn arian parod sy'n ofynnol gan safonau cyfrifyddu (yn enwedig ar gyfer y rhwymedigaethau pensiwn yr ydym yn eu trafod ar dudalen 13).

Mae’r diffyg refeniw net o £0.326 m (h.y. y gwahaniaeth rhwng y ffigurau incwm a gwariant a ddangosir uchod) yn cyd-fynd â’r alldro o £3.466 m a ddangosir yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid ar dudalen 24, oherwydd ein bod wedi cydnabod £3.140 m ychwanegol yn ein cyfrifon o’n cyfran ni o gyd-bwyllgorau.

## Alldro Refeniw i'r Gyllideb

Mae alldro Refeniw'r Gronfa Gyffredinol i'r gyllideb ar gyfer 2022/23 fel a ganlyn:

| Disgrifiad | Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23 £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant £'000 | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | 55,674 | 55,917 | 243 | 0.44 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 39,582 | 38,335 | -1,247 | -3.15 |
| Gwasanaethau Cymdogaeth | 11,807 | 11,669 | -138 | -1.17 |
| Yr Economi a Diogelu'r Cyhoedd | 8,302 | 7,337 | -965 | -11.62 |
| Llywodraethu ac Adnoddau | 8,588 | 8,223 | -365 | -4.25 |
| Costau Corfforaethol | 19,953 | 18,884 | -1,069 | -5.36 |
| Cyfraniadau ac Ailgodi Taliadau | -830 | -148 | 682 | -82.17 |
| **Gwariant Net (a)** | **143,076** | **140,217** | **-2,859** | **-2.00** |
| Trosglwyddiad i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | 0 | 1,355 | 1,355 | Amh. |
| **Gwariant Net (b)** | **143,076** | **141,572** | **-1,504** | **-1.05** |

(a) cyn trosglwyddiad i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, wedi'i ymrwymo ac a geisiwyd
(b) ar ôl trosglwyddiad i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, wedi'i ymrwymo ac a geisiwyd

Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn y tabl uchod yn ffigurau gwariant net. Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adran ar berfformiad ariannol yn yr adroddiad hwn yn ffigurau gros.

Dyma fanylion y symudiadau mwyaf sylweddol o'r gyllideb i'r alldro:

## Addysg

Adenilliad Arbennig – diffyg cyllideb net o £127,000 o ganlyniad i leoliadau ychwanegol a chostau cludiant cysylltiedig.

Cludiant Ysgol – diffyg cyllideb net o £885,000 o ganlyniad i brisiau contract uwch.

Gwasanaeth Cinio Ysgol – gwarged cyllideb net o £226,000 oherwydd grant a dderbyniwyd ar gyfer gweinyddu a chyflwyno'r fenter Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd.

Cymorth Ychwanegol – gwarged cyllideb net o £140,000 o ganlyniad i ddefnyddio'r grant Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol - gwarged cyllideb net o £102,000 yn deillio o gyfraniadau o'r grantiau Plant a Chymunedau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer costau cyflogau.

Gwasanaeth Systemau Rheoli Data Ysgolion – gwarged cyllideb net o £119,000 o ganlyniad i dderbyn grantiau ychwanegol.

## Gwasanaethau Cymdeithasol

Strategaethau Gwasanaethau Cleientiaid Gofal Cymdeithasol – gwarged cyllideb net o £621,000 yn sgil incwm grant ychwanegol mewn perthynas â Gofal Cartref, Pontio, Gofal Cymhleth, Gwasanaethau Aros yn Iach Gartref, Gwasanaethau Estynedig yn y Gymuned, Trawsnewid a Lleoliadau Arbenigol Camddefnyddio Sylweddau.

Lleoliadau a Gynorthwyir – gwarged cyllideb net o £393,000 yn bennaf yn sgil gostyngiad yn nifer y lleoliadau o gymharu â'r hyn a gyllidebwyd.

Taliadau Uniongyrchol – gwarged cyllideb net o £371,000 yn sgil lefelau uwch na'r disgwyl o incwm ac adennill gweddill a chostau cyflenwi gwasanaethau is na'r disgwyl.

Gwasanaethau Dydd a Gomisiynir yn Annibynnol – gwarged cyllideb net o £174,000 o ganlyniad i lai o alw na'r hyn a gyllidebwyd.

Sefydliadau Preswyl Annibynnol – gwarged cyllideb net o £647,000 yn bennaf o ganlyniad i newid yn y driniaeth gyfrifyddu mewn perthynas ag incwm taliadau eiddo yn ystod y flwyddyn.

Gwasanaethau Lleoli Preswyl Plant sy'n Derbyn Gofal - diffyg cyllideb net o £844,000 yn deillio o mwy o leoliadau a chost gyfartalog fesul lleoliad.

Plant sy'n Derbyn Gofal Maethu (Asiantaethau Maethu Annibynnol) – diffyg cyllideb net o £367,000 o ganlyniad i gynnydd mewn lleoliadau a chost gyfartalog fesul lleoliad.

Plant sy'n Derbyn Gofal Maethu (Mewnol) – gwarged cyllideb net o £184,000 yn deillio o lai o leoliadau na'r hyn a gyllidebwyd.

Gwasanaethau Cymorth Gadael Gofal - diffyg cyllideb net o £417,000 yn deillio o wariant uwch na'r disgwyl o fewn y ddarpariaeth 'Cam-i-lawr' ynghyd â'r angen am gymorth ychwanegol i nifer o bobl ifanc.

## Gwasanaethau Cymdogaeth

Cynnal a Chadw Tir – diffyg cyllideb net o £174,000 o ganlyniad i gostau sy'n gysylltiedig â chlefyd coed ynn.

Casgliadau Ailgylchu – gwarged cyllideb net o £378,000 o ganlyniad i incwm ailgylchu yn fwy na'r gyllideb a chostau fflyd is na'r hyn a gyllidebwyd.

Priffyrdd Gweithredol – diffyg cyllideb net o £107,000 o ganlyniad i gynnydd mewn costau contractwyr wedi'i wrthbwyso gan arbedion ar gostau rhedeg ac incwm ychwanegol.

## Yr Economi a Diogelu'r Cyhoedd

Tai – gwarged cyllideb net o £530,000 o ganlyniad i grant untro ychwanegol gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau digartrefedd ynghyd ag incwm budd-dal tai.

Canolfan Siopa Santes Tudful – diffyg cyllideb net o £166,000 yn bennaf o ganlyniad i golli incwm yn ymwneud â therfynu tenantiaethau masnachol ynghyd â chostau atgyweirio a chynnal a chadw mewn perthynas ag eiddo gwag a rhwymedigaethau ardrethi busnes ychwanegol.

Rhaglen Ffoaduriaid Wcráin – gwarged cyllideb net o £248,000 o ganlyniad i incwm tariff yn fwy na'r gwariant gwirioneddol ar gyfer teuluoedd y darparwyd tai iddynt ym Merthyr Tudful. Trosglwyddir y gwarged i gronfa a glustnodwyd i ariannu costau'r rhaglen yn y dyfodol.

## Llywodraethu ac Adnoddau

Gwasanaethau Parcio – gwarged cyllideb net o £163,000 yn deillio o incwm ychwanegol o Hysbysiadau Tâl Cosb, taliadau talu ac arddangos a thrwyddedau parcio.

## Costau Corfforaethol

Costau Ariannu Cyfalaf – gwarged cyllideb o £649,000 yn sgil llithriad yn y Rhaglen Gyfalaf yn arwain at dâl Darpariaeth Isafswm Refeniw is i'r refeniw na'r hyn a gyllidebwyd, ynghyd â newidiadau i'r strategaeth fenthyca.

Taliadau Budd-daliadau Treth Gyngor – gwarged cyllideb o £275,000 yn sgil llwyth achosion sylweddol is na'r disgwyl.

Incwm Grant Gweinyddu - derbyn incwm grant ychwanegol o £201,000 mewn perthynas ag ad-daliad i'r Cyngor am weinyddu mentrau 'Cymorth Tanwydd y Gaeaf', 'Cymorth Costau Byw' a 'Chymorth Gofalwyr Di-dâl' Llywodraeth Cymru.

## Cyfraniadau ac Ailgodi Taliadau

Ffactor Swyddi Gwag Corfforaethol – gwarged cyllideb o £958,000 yn adlewyrchu mwy na'r disgwyl o arbedion staff yn sgil yr amser a aeth heibio rhwng swyddi'n dod yn wag ac yna'n cael eu hail-lenwi.

Cyfraniad o'r Gronfa Wrth Gefn yn y Gyllideb – diffyg yn y gyllideb o £701,000 yn adlewyrchu cyfraniad diangen oherwydd yr alldro gwarged sylweddol a adroddwyd.

Dyfarniad Cyflog / Cyfraniad Yswiriant Gwladol y Cyflogwr – diffyg cyllideb net o £1.193 miliwn yn deillio o ddyfarniad cyflog uwch na'r disgwyl ar gyfer 2022/23 wedi'i wrthbwyso gan Ganghellor y Trysorlys yn gwrthdroi'r cynnydd arfaethedig o 1.25% mewn Cyfraniad Yswiriant Gwladol.

## Cronfeydd Wrth Gefn

Ar gyfer 2022/23, mae'r Cyngor yn adrodd trosglwyddiad o £1.355 miliwn i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, wedi'i ymrwymo ac a geisiwyd, fel a amlinellir isod.

| Disgrifiad | Gwerth £'000 | Disgrifiad | Gwerth £'000 |
|---|---|---|---|
| Hamdden a Gedwir | 8 | Rheoli Data Ysgolion | 20 |
| Iechyd yr Amgylchedd | 34 | Adnoddau Dynol | 27 |
| Arlwyo | 110 | Ailgylchu Gwastraff Cartrefi | 40 |
| Hawliau Tramwy | 13 | Peirianneg | 15 |
| Rhaglen Ffoaduriaid o Wcráin | 320 | Ymddeol / Taliadau | 24 |
| Rhaglen Adsefydlu Dinasyddion | 32 | Costau Cyllid Cyfalaf | 649 |
| Prosiectau Addysg Strategol | 15 | Adfywio Ffisegol | 48 |
| | | **Cyfanswm** | **1,355** |

Cynigir bod y gwarged sy'n weddill o £1.504 miliwn yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyllideb Wrth Gefn i gynorthwyo wrth osod y gyllideb dros y tymor canolig.

**<u>Alldro Cyfalaf i'r Gyllideb</u>**

Mae'r Alldro Cyfalaf i'r Gyllideb ar gyfer 2022/23 fel a ganlyn:

| Disgrifiad | Cyllideb Ddiwygiedig £'000 | Hyd Yma £'000 | Amrywiant £'000 | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant:** | | | | |
| **Addysg:** | | | | |
| Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif | 9,220 | 9,303 | 83 | 0.90% |
| Addysg - Arall | 3,989 | 3,939 | (50) | -1.25% |
| **Rhaglenni Adfywio Ffisegol** | 7,701 | 7,378 | (323) | -4.19% |
| **Peirianneg a Thrafnidiaeth** | 8,679 | 8,276 | (403) | -4.64% |
| **Tir, Adeiladau a Chorfforaethol** | 10,781 | 9,582 | (1,199) | -11.12% |
| **Cyfanswm** | **40,370** | **38,478** | **(1,892)** | **-4.69%** |
| **Ariannwyd gan:** | | | | |
| **Benthyciadau** | 15,888 | 16,192 | 304 | 1.91% |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | 23,671 | 21,796 | (1,875) | -7.92% |
| **Adnoddau'r Cyngor ei Hun** | 811 | 490 | (321) | -39.58% |
| **Cyfanswm** | **40,370** | **38,478** | **(1,892)** | **-4.69%** |

Yn 2022/23, gwariodd yr Awdurdod £38.478 miliwn ar brosiectau cyfalaf o'i gymharu â'r Rhaglen Gyfalaf a gynlluniwyd o £40.370 miliwn.

Dyma fanylion y symudiadau mwyaf sylweddol o'r gyllideb i'r alldro:

**Rhaglen Adfywio Ffisegol**

Cynllun Pontmorlais - tanwariant o £83,000 - cafwyd oedi oherwydd gwaith strwythurol ychwanegol ac amseroedd arwain hwy na'r disgwyl ar ddeunyddiau gwydr arbenigol oedd eu hangen. Mae'r cynllun wedi'i ymestyn tan ddiwedd mis Mehefin 2023 i ymdopi â'r oedi hwn ac ni ddisgwylir unrhyw golled o ran cyllid.

Bysiau Rhanbarthol Craidd - tanwariant o £60,000 – cafwyd cynnydd arafach na'r disgwyl ar gynlluniau a nodwyd o fewn y rhaglen. Bydd cyllid na chaiff ei ddefnyddio yn cael ei golli ond bydd y cynllun yn parhau yn 2023/24 â dyraniad diwygiedig.

Gorsaf Reilffordd Metro Plus ATRh - £161,000 o danwariant – cafwyd oedi oherwydd gofynion ymgynghori cyhoeddus helaeth. Bydd dyraniad cyllid diwygiedig yn cael ei wneud yn 2023/24.

**Peirianneg a Seilwaith Trafnidiaeth**

Seilwaith cerbydau trydan yn defnyddio Ynni Solar - £234,000 o danwariant - Arweiniodd anawsterau o ran gweithgynhyrchu offer, problemau staffio contractwyr ac anawsterau wrth gysylltu â'r Grid Cenedlaethol at oedi anorfod a gofyniad i gwtogi ar y cynllun.

Difrod Stormydd - £250,000 o danwariant - diffyg mewn gwaith gwirioneddol o gymharu â'r hyn a amcangyfrifwyd ar gyfer 2022/23. Gellir cario cyllid heb ei ddefnyddio ymlaen i ariannu cynlluniau pellach yn 2023/24.

**Tir, Adeiladau a Chorfforaethol**

Wynebau Newydd 3G ac ATP - £450,000 o danwariant – Rhoddwyd grantiau'n rhy hwyr ym mlwyddyn ariannol 2022/23 i'w defnyddio ac mae caniatâd wedi'i roi i arian gael ei gario ymlaen i'w ddefnyddio yn 2023/24.

Llifoleuadau Afon Taf - tanwariant o £108,000 – Arweiniodd materion Cynllunio a Bioamrywiaeth at oedi i'r cynllun. Gellir cario cyllid ymlaen i'w ddefnyddio yn 2023/24.

Prynu Cerbydau Trydan - £95,000 - oedi wrth gyflenwi cerbydau, disgwylir y cyflenwad erbyn diwedd Mehefin 2023.

To a Ffenestri'r Ganolfan Ddinesig - £78,000 o danwariant - mae newidiadau i fanylebau deunyddiau wedi lleihau'r costau'n sylweddol.

**Iechyd Ariannol**

Ar 31$^{ain}$ Mawrth 2023 mae balansau a chronfeydd wrth gefn cyffredinol yr Awdurdod nad ydynt wedi'u clustnodi ar gyfer unrhyw ddiben, yn dod i £5.722 miliwn (31$^{ain}$ Mawrth 2022 - £5.722 miliwn), sy'n cyfateb i 3.75% o'r Gwariant Refeniw Net a Gyllidebwyd gan y Cyngor ar gyfer 2023/24. Yn unol â Chylch Gorchwyl Bwrdd Cyllideb y Cyngor, y nod cyffredinol yw:

*"Cynnal balans digonol, iach ar gyfer y Cronfeydd Wrth Gefn, sef rhwng 3.5% a 4% o'r Gwariant Refeniw Net a gyllidebir yn flynyddol gan y Cyngor, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn ariannol hyfyw."*

Mabwysiadwyd y gofyniad hwn yn ffurfiol gan y Cyngor ar 22 Mawrth, 2017, wrth iddo gymeradwyo'i Bolisi ar Gronfeydd wrth Gefn Corfforaethol, gan ganiatáu'r hyblygrwydd i:

- Ymateb yn ddigonol i'r risg o orwariant posibl ar gyllidebau mewn meysydd gwasanaeth anwadal.
- Mynd i'r afael â goblygiadau ariannol yn sgil pwysau demograffig cynyddol.
- Ymateb i'r gofyniad critigol am wariant 'untro' wrth gwrdd â blaenoriaethau corfforaethol.
- Ymateb i ofynion llywodraethol a rheoliadol.

At hynny, mae gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy pellach ar 31ain Mawrth 2023 mewn perthynas â'r Gronfa Yswiriant (£2.375 miliwn), Balansau Ysgolion (£3.949 miliwn) a Chronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd (£24.942 miliwn). Y balansau cyfatebol wrth gefn ar 31ain Mawrth 2021 oedd £2.375 miliwn, £6.339 miliwn a £26.009 miliwn yn eu trefn. Wrth gefnogi Awdurdodau Lleol drwy'r pandemig, sicrhawyd bod arian ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, bu'r Awdurdod yn cyllidebu am gynnydd o 6.54% ar ei wariant refeniw net yng nghyllideb 2022/23 (wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau net Llywodraeth Cymru i mewn i'r Setliad Llywodraeth Leol) yn sgil cynnydd o 7.0% yng Nghyllid Llywodraeth Cymru a chynnydd o 4.7% i'r Dreth Gyngor.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod 2023/24 i 2026/27 yn amlinellu'n glir yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod dros y tymor canolig.

## Cyfleusterau Benthyca

Bydd yr Awdurdod, pan fo'n briodol, yn benthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (y PWLB), neu o'r Farchnad os ystyrir bod cyfraddau llog yn ffafriol, er mwyn rhannol ariannu prosiectau cyfalaf. Fel arfer, gwneir benthyciadau fel hyn ar sail hirdymor ac yn unol â'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2022/23, roedd benthyciadau i gefnogi gwariant cyfalaf yn dod o fewn y terfynau benthyca awdurdodedig a gymeradwywyd gan gyfarfod llawn o aelodau etholedig y Cyngor ar 2 Mawrth 2022.

Yn ogystal â hynny, efallai y bydd yn rhaid i'r Awdurdod, wrth reoli trafodion arian parod o ddydd i ddydd, gael benthyciad ar sail fyrdymor pan fydd ganddo ddiffyg ar ei falans arian ar unrhyw ddiwrnod penodol. Yn groes i hynny, gall yr Awdurdod hefyd roi benthyciad ar sail fyrdymor pan fydd ganddo warged ar ei falans arian. Mae sefydliadau a gymeradwyir ar gyfer trafodion byrdymor yn cynnwys y prif fanciau a chymdeithasau adeiladu ym Mhrydain ac awdurdodau lleol eraill.

## Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2022/23 yn cael ei lunio'n unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (yr IFRS) gyda'r cyfrifyddu ar gyfer "Buddion Ymddeol" yn seiliedig ar ddarpariaethau Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 (IAS 19) sef 'Buddion Cyflogeion'. Yn ôl darpariaethau IAS 19 sy'n ymwneud â Buddion Ôl-Gyflogaeth, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gydnabod ased/rhwymedigaeth net a chronfa bensiwn wrth gefn yn y fantolen ac yng nghofnodion y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sy'n ymwneud â symud asedau/rhwymedigaethau ar gyfer cynlluniau buddion diffiniedig (gyda'r cofnodion cysoni yn mynd yn ôl at gyfraniadau oedd yn daladwy at ddibenion y Dreth Gyngor trwy Ddatganiad Symudiad y Cronfeydd Wrth Gefn).

O dan IAS 19, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu ei rwymedigaeth pensiwn o ran sefyllfa'r diffyg ar y gronfa bensiwn. Y rhwymedigaeth ar ddiwedd y flwyddyn oedd £64.91 miliwn (£179.38 miliwn ar 31 Mawrth 2022). Mae'r Awdurdod yn talu cyfraniadau cyflogwr fesul cam er mwyn gwneud iawn am ddiffyg y gronfa bensiwn.

Ceir rhagor o fanylion yn Nodiadau 24, 36 a 37 o'r Datganiad Cyfrifon.


**Yr Hinsawdd Ariannol**

Mae Dadansoddi Cyllidol Cymru yn nodi bod chwyddiant uwch na ragwelwyd wedi erydu'n sylweddol werth mewn termau real cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd rhwng 2022/23 a 2024/25. Gallai'r colledion yn sgil chwyddiant uwch ers gosod cyllidebau'r llynedd fod tua £800 miliwn yn 2023/24 a £600 miliwn yn 2024/25.

Hyd yn oed gyda chyllid ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf, mae Dadansoddi Cyllidol Cymru yn rhagamcanu y byddai cynnydd blynyddol o 2% yn y dreth gyngor yn gadael awdurdodau lleol £345 miliwn yn brin o'r swm sydd ei angen i gwrdd â phwysau costau a galw erbyn 2024/25. Os bydd llywodraeth nesaf y DU yn cadw at y cynlluniau gwariant main sydd wedi'u nodi'n fras gan y llywodraeth bresennol, gallai'r bwlch ariannu hwn dyfu i £660 miliwn erbyn 2027/28. Byddai hyn bron yn sicr yn golygu dychwelyd i gyfnod o doriadau gwariant a chynnydd uwchlaw chwyddiant yn y dreth gyngor ar ôl seibiant byr yn ystod y pandemig.

Yn ei ddogfen Rhagolygon Cyllideb Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022, mae Dadansoddi Cyllidol Cymru yn disgrifio'r sefyllfa economaidd bresennol fel 'storm berffaith' cyllidol a chyllidebol, set o amgylchiadau economaidd mwy difrifol nag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd a'r pandemig byd-eang a olygodd camau i gau'r economi mewn ffordd na ellid bod wedi'u dychmygu'n flaenorol. Mae prisiau ynni a chwyddiant byd-eang uwch nag erioed, adferiad economaidd anemig yn dilyn y pandemig, ac arbrawf hunan-achosol mewn toriadau treth heb eu hariannu a wanhaodd hygrededd economaidd y DU yn ddifrifol, oll wedi ailagor llyfr gwleidyddiaeth caledi a oedd ond wedi roi yn ôl ar y silff yn ddiweddar gan lywodraeth y DU.

Mae setliadau refeniw'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2006/07 i 2023/24 gyda setliadau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 a 2024/25 wedi'u hamlinellu isod.




O Ffigur 1, er mai'r setliadau refeniw ar gyfer y cyfnod 2020/21 i 2023/24 yw'r rhai gorau ers 2006/07, mae'n amlwg bod y Cyngor wedi wynebu heriau ariannol sylweddol dros y tymor hir, gan brofi cyfnod o ostyngiadau ariannol digynsail wrth i'r Llywodraeth Ganolog barhau â'i pholisi o gyni ariannol. Oherwydd pwysau ychwanegol digynsail na ellid ei osgoi yn deillio o ddyfarniadau cyflog, chwyddiant uchel, a chostau ynni a chyfraddau llog cynyddol, mae cynnydd setliad o 7% ar gyfer 2023/24 yn annigonol i fynd i'r afael â gofynion costau'r Awdurdod ac mae'n dal i arwain at ostyngiad o 7% mewn termau real. Mae'r Awdurdod wedi cyllidebu'n ddarbodus ar gyfer cynnydd yn y setliad o 2.4% ar gyfer 2025/26 a 2.0% ar gyfer 2026/27.

Mewn amgylchedd o ansicrwydd ariannol, mae trawsnewid yr Awdurdod i sicrhau ei fod yn addas i'r diben i ymdopi â heriau ariannol i'r dyfodol yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys cydweddu adnoddau prin â blaenoriaethau allweddol ac amcanion llesiant gan sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i gael eu cyflawni'n effeithiol ac effeithlon ac yn cael eu datblygu a'u gwella ymhellach.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 i 2026/27 y Cyngor yn nodi'n bresennol bod y Cyngor yn wynebu gorfod nodi a chyflawni arbedion yn y gyllideb o £10.5 miliwn ar gyfer 2024/25 ac £23.3 miliwn ar gyfer y cyfnod 2024/25 i 2026/27.

Mae'r Cyngor wedi cyllidebu ar gyfer cynnydd cyllido o 3.1% ar gyfer 2024/25, 2.4% ar gyfer 2025/26 a 2.0% ar gyfer 2026/27, ynghyd â chynnydd yn y Dreth Gyngor o 4.7% dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac mae ar waith â nodi cynigion i fynd i'r afael â'r diffygion sydd wedi'u rhagamcanu yn y gyllideb. Mae pob 1% o amrywiant yn y setliad sydd wedi'i ragamcanu yn gyfystyr â thua £1.1 miliwn. Mae disgwyl i Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2024/25 gael ei gyhoeddi rhwng mis Hydref 2023 a mis Rhagfyr 2023.



Mae'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 i 2026/27 yn nodi Rhaglen Gyfalaf cyllid craidd o £36.268 miliwn ar gyfer 2023/24 a £88.609 miliwn ar gyfer y cyfnod o 4 blynedd, gyda gwariant cyfalaf 2023/24 wedi'i ariannu o Grantiau Cyfalaf (£4.713 miliwn), Benthyg (£31.055 miliwn) ac o adnoddau'r Cyngor ei hun (£0.5 miliwn).

Yn ystod mis Chwefror 2020, achosodd Storm Dennis lifogydd a difrod sylweddol ar rai ardaloedd o fewn y Fwrdeistref Sirol, a bu’n rhaid i’r Cyngor gyflwyno rhestr o waith atgyweirio cyfalaf gwerth cyfanswm o £8.453 miliwn i Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 3 blynedd rhwng 2020/21 a 2022/23. Mae'r Cyngor wedi derbyn £6.6 miliwn o gymorth ar gyfer prosiectau cyfalaf ar gyfer y cyfnod 2020/21 i 2022/23, gan gynnwys £2.1 miliwn ar gyfer 2022/23. Disgwylir rhagor o arian ar gyfer 2023/24 gan fod cyfran o brosiectau atgyweirio cyfalaf wedi 'llithro' i 2023/24.

**Risgiau Corfforaethol**

Mae gan yr Awdurdod Gofrestr Risgiau Corfforaethol er mwyn rheoli Risgiau Corfforaethol y Cyngor a allai effeithio ar ddarparu Nodau Llesiant y Cyngor a Blaenoriaethau ehangach y Cyngor, a sicrhau bod y risg y mae’r Cyngor yn ei hwynebu yn lleihau dros amser. I bob Risg Gorfforaethol yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, dynodwyd Math o risg, Swyddog Arweiniol y Tîm Rheoli Corfforaethol a Chynghorydd / Aelod Cabinet Arweiniol.

Mae’r tabl isod wedi ei gymryd o’r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar gyfer 2022/23 wedi’i ddiweddaru hyd fis Mawrth 2023 ac mae’n rhoi crynodeb o’r Risgiau Corfforaethol, gan gynnwys y math o risg, disgrifiad, sgôr y risg, a’r newid o gymharu â’r llynedd. Bydd adroddiad terfynol 2022/23 yn cael ei adrodd i'r Cabinet ar 12 Gorffennaf 2023.

| Math o Risg | Disgrifiad o'r Risg | Sgôr y Risg (Mawrth 2022) | Sgôr y Risg (Hydref 2022) | Sgôr y Risg (Mawrth 2023) | Tuedd | Cynghorydd Arweiniol / Swyddog TRhC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid | Y risg nad yw'r Cyngor yn mantoli'r gyllideb ac nad yw'n ariannol gynaliadwy. | Effaith = 5<br>Tebygolrwydd = 2<br>**Sgôr y Risg = 10** | Effaith 5<br>Tebygolrwydd 4<br>**Sgôr y Risg 20** | Effaith = 5<br>Tebygolrwydd = 3<br>**Sgôr y Risg = 15** |  | Aelod Cabinet dros Lywodraethu ac Adnoddau<br>Prif Swyddog Cyllid |
| | Nid yw'r Cyngor yn gynaliadwy wrth symud ymlaen. | Effaith = 5<br>Tebygolrwydd = 3<br>**Sgôr y Risg = 15** | Effaith 5<br>Tebygolrwydd 4<br>**Sgôr y Risg 20** | Effaith 5<br>Tebygolrwydd 4<br>**Sgôr y Risg 20** |  | |
| Ymosodiad Seiber | Y risg bod y Cyngor yn agored i ymosodiad seiber a allai achosi methiant catastroffig. | Effaith 5<br>Tebygolrwydd 4<br>**Sgôr y Risg 20** | Effaith 5<br>Tebygolrwydd 4<br>**Sgôr y Risg 20** | Effaith 5<br>Tebygolrwydd 4<br>**Sgôr y Risg 20** |  | Aelod Cabinet dros Lywodraethu ac Adnoddau<br>Prif Swyddog Cyllid |
| Cyrhaeddiad Ysgol | Y risg nad yw'r holl ddysgwyr yn perfformio yn ôl y lefelau disgwyliedig. | Effaith 5<br>Tebygolrwydd 5<br>**Sgôr y Risg 25** | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 4<br>**Sgôr y Risg = 16** | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 4<br>**Sgôr y Risg = 16** |  | Aelod Cabinet dros Addysg<br>Cyfarwyddwr – Dysgu |
| Gallu | Y risg bod y Cyngor yn colli staff sydd â'r sgiliau â'r gallu i gyflawni ar ganlyniadau a thargedau allweddol. | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 3<br>**Sgôr y Risg = 12** | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 3<br>**Sgôr y Risg = 12** | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 4<br>**Sgôr y Risg = 16** |  | Aelod Cabinet dros Lywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol<br>Pennaeth Adnoddau Dynol |
| Gallu | Y risg bod y Cyngor yn methu â recriwtio a chynnal staff gan arwain at bwyntiau dibyniaeth unigol | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 3<br>**Sgôr y Risg = 12** | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 3<br>**Sgôr y Risg = 12** | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 4<br>**Sgôr y Risg = 16** |  | Aelod Cabinet dros Lywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol<br>Pennaeth Adnoddau Dynol |
| Cydymffurfiaeth (cyfeiriwyd ato yn flaenorol fel Llywodraethu) | Y risg nad yw'r Cyngor yn bodloni gofynion statudol, cyfreithiau a rheoliadau. | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 4<br>**Sgôr y Risg = 16** | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 3<br>**Sgôr y Risg = 12** | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 3<br>**Sgôr y Risg = 12** |  | Aelod Cabinet dros Lywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol<br>Swyddog Monitro |
| Diogelu | Y risg nad yw'r Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol a bod trefniadau diogelu'r Cyngor yn methu â diogelu plant, oedolion a staff y Cyngor. | Effaith = 5<br>Tebygolrwydd = 3<br>**Sgôr y Risg = 15** | Effaith = 5<br>Tebygolrwydd = 3<br>**Sgôr y Risg = 15** | Effaith = 5<br>Tebygolrwydd = 3<br>**Sgôr y Risg = 15** |  | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cymdeithasol |

| Math o Risg | Disgrifiad o'r Risg | Sgôr y Risg (Mawrth 2022) | Sgôr y Risg (Hydref 2022) | Sgôr y Risg (Mawrth 2023) | Tuedd | Cynghorydd Arweiniol / Swyddog TRhC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Perfformiad | Y risg bod rheoleiddwyr statudol y Cyngor yn cyflwyno argymhelliad ffurfiol i'r Cyngor ar gyfer gwelliant. | Effaith 4<br>Tebygolrwydd 5<br>**Sgôr y Risg 20** | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 3<br>**Sgôr y Risg = 12** | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 4<br>**Sgôr y Risg = 16** | ↑ | Cabinet<br>Tîm Rheoli Corfforaethol |
| Digartrefedd | Y risg y bydd Digartrefedd yn y Fwrdeistref Sirol yn effeithio ar Gyflawni Gwasanaethau a'r gyllideb ariannol i ymdrin â'r holl gostau. | Effaith 5<br>Tebygolrwydd 4<br>**Sgôr y Risg 20** | Effaith 5<br>Tebygolrwydd 4<br>**Sgôr y Risg 20** | Effaith 5<br>Tebygolrwydd 5<br>**Sgôr y Risg 25** | ↑ | Aelod Cabinet dros Adfywio a Thai<br>Dirprwy Brif Weithredwr |
| Newid Hinsawdd a Sero Net | Oherwydd effeithiau Newid yn yr Hinsawdd efallai na fydd y Cyngor yn barod ar gyfer newidiadau i batrymau tywydd ac ati gan arwain at lifogydd a pherygl i eiddo | | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 4<br>**Sgôr y Risg = 16** | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 4<br>**Sgôr y Risg = 16** | → | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Targed Rheoli Gwastraff | Y risg bod y Cyngor yn methu â chyrraedd y Targed gan arwain at gosbau ariannol | | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 4<br>**Sgôr y Risg = 16** | Effaith 5<br>Tebygolrwydd 4<br>**Sgôr y Risg 20** | ↑ | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdogaeth |
| WCCIS | Oherwydd ansefydlogrwydd WCCIS mae'n bosibl na fydd y system yn cofnodi cofnodion yn gywir gan arwain at ddata anghywir gan y gallai staff gynnal asesiadau heb unrhyw ddata hanesyddol gan arwain at ansawdd y gwaith a chysylltiadau â risgiau diogelu | | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 4<br>**Sgôr y Risg = 16** | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 3<br>**Sgôr y Risg = 12** | ↓ | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Diogelwch Canol y Dref | Diogelwch Canol y Dref - Oherwydd lefelau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a chanfyddiad o droseddu, efallai na fydd trigolion ac ymwelwyr yn ymweld â Chanol y Dref gan arwain at golli refeniw o feysydd parcio a busnesau yn gadael eiddo. | | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 4<br>**Sgôr y Risg = 16** | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 4<br>**Sgôr y Risg = 16** | → | Aelod Cabinet dros Adfywio a Thai<br>Dirprwy Brif Weithredwr |

| Math o Risg | Disgrifiad o’r Risg | Sgôr y Risg (Mawrth 2022) | Sgôr y Risg (Hydref 2022) | Sgôr y Risg (Mawrth 2023) | Tuedd | Cynghorydd Arweiniol / Swyddog TRhC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Bro | Y risg na chaiff prosiectau buddsoddi cyfalaf mawr Cymunedau Dysgu Cynaliadwy mewn ysgolion eu cyflawni ar amser, o fewn y gyllideb neu o gwbl. | | | Effaith = 4<br>Tebygolrwydd = 4<br>**Sgôr y Risg = 16** | | Aelod Cabinet dros Addysg<br>Cyfarwyddwr – Dysgu |
| Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol | Y risg o gostau cynyddol ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol a Chludiant ADY. | | | Effaith 5<br>Tebygolrwydd 4<br>**Sgôr y Risg 20** | | Aelod Cabinet dros Addysg<br>Cyfarwyddwr – Dysgu |

## Y Fargen Ddinesig

Mae’r Cytundeb Cydweithio mewn perthynas â chyflawni Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy’n cwmpasu 10 Awdurdod Lleol yn ne-ddwyrain Cymru, wedi ei lofnodi. Sefydlwyd y Cabinet Rhanbarthol ar 1 Mawrth 2017.

Mae’r Fargen Ddinesig yn darparu cyllid i gefnogi cynlluniau a fydd yn ysgogi twf economaidd y rhanbarth. Mae’r cytundeb â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn darparu £1.2 biliwn. Caiff £734 miliwn o hyn ei ddyrannu i’r Metro, a bydd y £495 miliwn sy’n weddill ar gael ar ffurf y Gronfa Fuddsoddi Ehangach.

Mae’r Gronfa Fuddsoddi Ehangach yn cynnwys:

- grant o £375 gan Lywodraeth y DU i’w dalu dros 20 mlynedd, gyda blynyddoedd 1 i 5 yn grant refeniw o £50 miliwn, ac wedyn blynyddoedd 6 i 20 yn grant cyfalaf o £325 miliwn
- cyfraniad cyfalaf o £120 miliwn gan Bartneriaeth yr Awdurdodau Lleol i’w dynnu i lawr yn ôl yr angen.

Mae’r Cabinet Rhanbarthol wedi datgan mai nodau lefel uchel y Gronfa Fuddsoddi Ehangach yw creu 25,000 o swyddi newydd a £4 biliwn o fuddsoddiad y sector preifat. Gwnaed y buddsoddiad cyntaf yn y prosiect lled-ddargludyddion cyfansawdd, gan ddarparu benthyciad o £38.5 miliwn, i’w ad-dalu, sydd â’r potensial i greu 2,000 o swyddi a thros £380 miliwn o fuddsoddiad y sector preifat.

Cymeradwywyd Cynllun Busnes y Cytundeb Cydweithio gan bob un o’r 10 Cyngor cyfansoddol ym mis Mawrth 2018, gyda Merthyr Tudful yn ei gymeradwyo mewn cyfarfod o’r Cyngor ar 7 Mawrth 2018. £0.954 miliwn oedd cyfraniad Merthyr Tudful i’r buddsoddiad cyntaf yn 2017/18 a thalwyd £0.485 miliwn pellach yn 2018/19. Nid oedd cyfraniad ar gyfer 2019/20, talwyd cyfraniad o £0.079 miliwn yn 2020/21 ac nid oedd cyfraniad yn 2021/22.

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol sef datganiad ffurfiol sy'n cwmpasu'r holl systemau, prosesau a rheolaethau corfforaethol o bwys. Caiff ei graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

## Casglu’r Dreth Gyngor

Roedd casglu’r Dreth Gyngor yn parhau i fod yn heriol yn ystod 2022/23 o ganlyniad i effaith Covid-19 yn cynnwys effaith yr argyfwng costau byw ar incwm aelwydydd. Er i’r gyfradd gasglu wella gan 0.3% o 94.4% yn 2021/22 i 94.7% yn 2022/23, roedd yn dal i fod 0.8% yn is na’r lefel o 95.5% cyn y pandemig yn 2019/20. Mewn termau ariannol, mae hyn yn golygu bod £260,000 yn llai o dreth gyngor wedi’i chasglu yn ystod 2022/23 na chyn y pandemig.

## Y Ffordd Ymlaen

Mae’r Cyngor ar waith â nodi arbedion effeithlonrwydd yn y gyllideb ar gyfer 2024/25 ac ar gyfer cyfnod 4 blynedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2023. Bydd y Rhaglen Drawsnewid yn adeiladu ar egwyddorion Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella y Cyngor wrth nodi arbedion effeithlonrwydd cynaliadwy tra'n cydnabod y blaenoriaethau o fewn y Cynllun. Mae’r rhaglenni gwaith trawsnewidiol a nodwyd yn y Cynllun yn cynnwys Trawsnewid Digidol a’r Rhaglen Fasnachol.

I ategu'r agendau digidoleiddio a masnacheiddio, bydd gwasanaethau'n parhau i gael eu blaenoriaethu i sicrhau yr eir i'r afael â'r diffygion a ragamcanir yn y gyllideb ac y caiff adnoddau eu dyrannu i wasanaethau sy'n flaenoriaeth.

**Gwybodaeth Bellach**

Mae gwybodaeth bellach am y cyfrifon ar gael oddi wrth yr Adran Gyllid, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful. Rhan o bolisi'r Awdurdod o ddarparu gwybodaeth lawn am faterion yr Awdurdod yw hyn. Yn ychwanegol, mae hawl statudol gan aelodau o'r cyhoedd i archwilio'r cyfrifon cyn bod yr archwiliad yn cael ei gwblhau. Mae'r ffaith bod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio yn cael ei hysbysebu ar Wefan yr Awdurdod ac yng Nghanolfan Ddinesig yr Awdurdod.

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL TERFYNOL 2022/23

***Tachwedd 2023***

## 1. CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (y Cyngor) yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â’r gyfraith a’r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a’i gyfrifo amdano’n briodol, a’i ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod a chyhoeddi amcanion llesiant a nodi sut y bydd yn gweithio tuag at fodloni'r amcanion hynny gan ddefnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio mewn ffordd gynaliadwy i gyflawni'r weledigaeth gyffredin i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Felly mae angen i’r Cyngor wneud yn siŵr, pan y caiff penderfyniadau eu gwneud, bod y Cyngor yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae’n ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf, gan gynnwys Llywodraeth Leol, ystyried y tymor hirach wrth lunio’u penderfyniadau a chydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru. Yn ôl y Ddeddf, mae’n ddyletswydd ar y cyrff dan sylw i osod amcanion llesiant sy'n cyfrannu, hyd y gallant, at nodau llesiant. Cafodd amcanion llesiant cyntaf y cyrff cyhoeddus eu gosod a’u cyhoeddi ar 31 Mawrth 2017. Yn 2023 cynhaliwyd asesiad o anghenion a llesiant y boblogaeth ar draws Cwm Taf Morgannwg. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at fodloni’u hamcanion llesiant.

Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn gasgliad o gyrff cyhoeddus sy’n cydweithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y bobl sy’n byw, yn gweithio ac yn ymweld ag ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yng Nghwm Taf. Mae gofyn i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardaloedd trwy weithio i gyflawni’r nodau llesant.

Wrth gyflawni’r cyfrifoldeb eang hwn, mae’r Cyngor yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei waith, a hwyluso i’w swyddogaethau gael eu cyflawni’n effeithiol, sy’n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Cyhoeddwyd canllawiau o'r enw *Delivering Good Governance in Local Government: Framework* (CIPFA/SOLACE, 2016) sy'n berthnasol i ddatganiadau llywodraethu blynyddol a gaiff eu paratoi ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 ac wedyn. At hynny, cyhoeddwyd *CIPFA Guidance Bulletin 06 (Application of the Good Governance Framework 2020/21)* ym mis Chwefror 2021.

Mae gan y Cyngor God Llywodraethu Corfforaethol Lleol a ddiweddarwyd a'i gymeradwyo yn 2020/21. Bydd y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn cael ei ddiweddaru pan fydd y cyfansoddiad newydd yn cael ei fabwysiadu. Caiff hwn wedyn ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddaru lle bo angen.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn egluro'r modd y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â dogfen CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government: Framework* (2016) ynghyd â sut mae'n ateb gofynion Rhan 2 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 2015.

## 2. DIBEN Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae llywodraethu yn ymwneud â'r modd y mae cyrff llywodraeth leol yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, i'r bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol.

Mae Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli gweithgareddau'r Cyngor. Mae hefyd yn ymgorffori'r modd y mae'n arwain y gymuned, yn rhoi cyfrif iddi ac yn ymgysylltu â hi. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro cyflawniad ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ac ystyried a yw hyn wedi arwain at well canlyniadau i'r dinesydd. Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw ac fe'i lluniwyd fel bod risg yn cael ei rheoli i lefel resymol. Ni all ddileu'r risg o fethu â chyflawni polisïau neu'i amcanion yn gyfan gwbl, ac felly sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn unig y gall ei gynnig, yn hytrach na sicrwydd llwyr.

Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau wrth gyflawni polisïau, amcanion llesiant a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Hefyd, mae'n gwerthuso pa mor debygol yw y caiff y risgiau hynny ei gwireddu, a'r effaith gysylltiedig pe byddent yn digwydd, ac yn nodi sut y caiff y risgiau eu rheoli.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith bob blwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd yn cael ei lywio gan waith a gynhelir gan asiantaethau allanol a threfniadau mewnol, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad.

Mae fframwaith llywodraethu wedi bod yn ei le yn y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sy’n diweddu 31 Mawrth 2023, a hyd at ddyddiad cymeradwyo’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a’r Datganiad Cyfrifon.

## 3. EFFAITH PANDEMIG COVID 19

Cafodd ymateb y Cyngor i bandemig y coronafeirws ei reoli yn unol â threfniadau cynllunio at argyfwng y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi symud ei raglen ddemocratiaeth ddigidol yn ei blaen yn sylweddol, a chynhelir cyfarfodydd pwyllgor (gan gynnwys cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet) trwy blatfform hybrid sy’n hygyrch i'r cyhoedd.

Bu cynnydd yn y defnydd o dechnoleg ddigidol. Mae hyn yn cynnwys datblygu seilwaith a mwy o atebion ar ffurf caledwedd a meddalwedd, i sicrhau ei fod yn dal i ddarparu ei wasanaethau. Mae hyn hefyd yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori. Mae system teleffoni'r Cyngor wedi'i haddasu i gynorthwyo sut mae pobl yn cysylltu â'r Cyngor. Mae cysylltiadau gwell wedi'u creu rhwng gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae hyn yn berthnasol iawn i'r rhai nad oes ganddynt fynediad i blatfformau digidol.

### Adfer

Mae rheolwyr wedi nodi risgiau gwasanaeth oherwydd y pandemig. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn eu cynlluniau busnes (e.e. cofrestrau risgiau gweithredol a chynlluniau parhad busnes) a chofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor, gan alluogi'r Cyngor i ystyried dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar risg.

## 4. ARGYFWNG COSTAU BYW

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn o fesurau i helpu pobl gyda chymorth tuag at gostau byw. Mae’r pecyn yn cynnwys £152M i ddarparu taliad costau byw o £150 i aelwydydd cymwys (y prif gynllun) a £25M i ddarparu cymorth disgresiynol ledled Cymru at ddibenion eraill sy’n ymwneud â chostau byw. Bwriad y cynlluniau yw darparu cymorth ar unwaith wrth i Gymru adfer ar ôl y pandemig a chynorthwyo aelwydydd i ymdrin ag effaith cynnydd mewn costau ynni a chostau eraill. Gall cyllid y Cynllun Disgresiynol gael ei ddefnyddio gan bob awdurdod lleol i gynorthwyo aelwydydd eraill y mae’n ystyried bod angen cymorth arnynt gyda’u costau byw. Bydd pob Awdurdod Lleol yn penderfynu ar ei ddefnydd o gymorth disgresiynol fel y gwêl yn briodol er mwyn mynd i’r afael ag anghenion lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid o £4,174,753 i CBS Merthyr Tudful at ddibenion y Cynllun Cymorth Costau Byw, sydd wedi'i ddyrannu fel a ganlyn:

- Y Prif Gynllun (Cynllun Cymorth Costau Byw) - £3,585,000
- Y Cynllun Disgresiynol (Cynllun Cymorth Disgresiynol Costau Byw) - £589,753 Gall yr awdurdod gyfeirio unrhyw warged ychwanegol i'w ddefnyddio o fewn y gronfa ddisgresiynol.

Amcangyfrifir bod 23,673 eiddo o fewn CBS Merthyr Tudful sy'n gymwys i dderbyn taliad Prif Gynllun Cymorth Costau Byw, sef cyfanswm o 3,550,950.

## 5. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r canlynol yn ddisgrifiad o'r strwythurau a'r prosesau sy'n rhan o drefniadau llywodraethu'r Cyngor gan gynnwys trefniadau ar gyfer:

### a) Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.

Gan weithio gyda staff, mae'r Cyngor wedi nodi nifer o Werthoedd Craidd ac ymddygiadau cysylltiedig:

- Gonestrwydd a Didwylledd
- Ymddiriedaeth a Pharch
- Atebolrwydd
- Dysgu
- Dyhead
- Gweithio fel Tîm
- Cyfathrebu

Mae aelodau'r Cabinet wedi cymryd rhan weithredol yn y gwaith o adolygu gwerthoedd craidd y Cyngor fel sail i holl fusnes y Cyngor.

Mae'n ofynnol i bob Cynghorydd a Swyddog yn y Cyngor gydymffurfio â'r Codau Ymddygiad perthnasol fel a nodir yn y Cyfansoddiad, sy'n rhoi manylion swyddogaethau a chyfrifoldebau penodol Cynghorwyr a Swyddogion.

Mae gan bob un newydd i'w rôl y cyfle i ddysgu am y Cyngor yn ystod y broses sefydlu. Caiff y prif bolisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys y llawlyfr staff a'r cod ymddygiad, eu darparu yn

ystod y broses hon. Mae crynodeb o God Ymddygiad Cyflogeion wedi'i gynnwys yn llawlyfr y staff. Mae Cod Ymddygiad Cyflogeion llawn hefyd ar gael ar fewnrwyd y Cyngor. Yn ogystal â hyn, mae’r proses sefydlu prentisiaethau corfforaethol yn cael ei gynorthwyo gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a’r Uwch Dîm Arwain. Yn ddiweddar, cyflwynodd y Cyngor raglen Sefydlu Rheolwyr, sydd wedi'i chreu i bob rheolwr adolygu'r prosesau a'r polisïau presennol ynghylch cymorth ac arweiniad wrth reoli timau. Mae'r rhaglen hon hefyd yn cynnwys sgiliau meddalach fel hyfforddi, arddulliau arwain a rheoli timau sy'n perfformio'n dda.

Mae'r Cod Ymddygiad a Datganiad Buddiannau yn rhan o Broses Sefydlu'r Cynghorwyr. Disgwylir i Gynghorwyr ddatgan i Gyfarwyddwr neu Reolwr priodol ac yn y Gofrestr Buddiannau unrhyw fuddiannau ariannol/anariannol a allai wrthdaro â buddiannau'r Cyngor. Rhaid i gynghorwyr hefyd ddatgan unrhyw achos o gynnig / derbyn lletygarwch.

Mae Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn hyrwyddo ac yn cynnal egwyddorion moesegol uchel ac mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn y Cod Ymddygiad i Gynghorwyr. Mae pob Cynghorydd yn cytuno i ddilyn y Cod Ymddygiad i sicrhau safonau uchel yn y ffordd y maent yn cyflawni eu dyletswyddau. Mae'r Pwyllgor Safonau yn gyfrifol am fonitro trefniadau llywodraethu'r Cyngor a hybu safonau uchel o ymddygiad moesegol ymhlith Aelodau a Swyddogion er mwyn cynnal hyder y cyhoedd mewn Llywodraeth Leol.

Mae Adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod gofyniad ychwanegol ar Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau’r Grŵp, ac mae ein dau Arweinydd wedi’u croesawu.

Y Pennaeth Cyfreithiol yw Swyddog Monitro’r Cyngor, gyda’r cyfrifoldeb penodol am sicrhau bod y Cyngor, ei Swyddogion a’i Gynghorwyr yn cynnal y safonau ymddygiad uchaf ym mhopeth a wnânt yn unol ag Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac fel y’i diwygiwyd gan atodlen 5 paragraff 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae swyddogaethau'r Swyddog Monitro yn cynnwys cynorthwyo'r Pwyllgor Safonau i hybu safonau uchel; gweithredu ar adroddiadau Ombwdsmon; a chynnal ymchwiliadau i gategorïau penodol o gwynion yn erbyn cynghorwyr a anfonwyd yn ôl gan yr Ombwdsmon. Ymdrinnir ag unrhyw gwynion a dderbynnir yn erbyn Cynghorwyr o dan weithdrefn datrys anghydfod fewnol y Cyngor neu cânt eu cyfeirio at yr Ombwdsmon i ymchwilio iddynt. Dim ond os yw'r Ombwdsmon o'r farn bod canlyniad priodol o wneud hynny y caiff cwynion eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau. Derbyniodd y Cyngor 4 cwyn yn erbyn Cynghorwyr yn ystod 2022/23 ac ymdriniwyd â nhw drwy ddatrysiad anffurfiol.

Mae'r Dadansoddiad Anghenion Hyfforddiant bellach yn rhan o'r ffurflenni Adolygu Datblygiad Personol. Mae disgwyl i'r Cynghorwyr gwblhau'r rhain gyda'u Harweinwyr. Mae'r broses hon yn cynorthwyo Cynghorwyr i nodi eu cryfderau allweddol, ystyried eu hanghenion datblygu parhaus a pha gymorth y gall fod ei angen i gyflawni eu hamcanion personol a chyflawni amcanion llesiant a gweledigaeth gorfforaethol y Cyngor. Mae'r broses hefyd yn nodi unrhyw hyfforddiant penodol sydd ei angen i gynorthwyo gyda'u dysgu a'u datblygiad parhaus.

Mae Polisi a Strategaeth Caffael y Cyngor 2019-2022 yn dal i fod ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, a bydd hyn yn cael ei ddiweddaru yn 2024 pan y bwriedir i'r ddeddfwriaeth newydd gael ei gorfodi. Mae'r Polisi a'r Strategaeth Caffael yn nodi y bydd pob gweithgaredd caffael yn cael ei gyflawni i'r safonau uchaf o uniondeb a phroffesiynoldeb ac y bydd Cynghorwyr a Swyddogion yn deg ac yn foesegol ac yn osgoi ymddygiad a allai fynd yn groes i hyn neu awgrymu gwrthdaro buddiannau.

Drwy gydol y prosesau tendro mae Gwasanaethau Caffael yn defnyddio meini prawf dethol sy'n profi darparwyr allanol presennol a darpar ddarparwyr o ran moeseg. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith teg, caethwasiaeth fodern, yr amgylchedd, iechyd a diogelwch, cadwyni cyflenwi ac ati. Mae'r datganiad cydraddoldeb hefyd wedi'i gynnwys mewn dogfennau tendro sy'n rhan o gontractau gwasanaeth.

Er mwyn cynorthwyo'r gwaith o reoli risg, caiff partneriaid allweddol eu nodi ym mhob un o Gofrestrau Risgiau'r Cyngor. Cyflwynwyd yr Asesiad Effaith Integredig i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth y mae'r Cyngor yn ddarostyngedig iddi. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn ymgorffori Amcanion Llesiant y Cyngor, yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy (prosesau'r pum ffordd o weithio), y Gymraeg, Cydraddoldeb ac Anfantais Economaidd-gymdeithasol, Datgarboneiddio, Bioamrywiaeth, Ymgynghori ac Ymgysylltu, a Data a Thystiolaeth. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r gwaith sy'n ymwneud â datgarboneiddio a'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i gymhwyso i achosion busnes a phrosiectau fel rhan o fframwaith rheoli prosiect y Cyngor.

Cymeradwywyd y Strategaeth a'r Polisi Risgiau Corfforaethol newydd ym mis Medi 2022. Diweddarwyd hyn i adlewyrchu'r newidiadau o fewn y Cyngor a'r meini prawf ychwanegol yr oedd angen eu hychwanegu. Mae'r cymorth i bartneriaid allweddol rheoli risg yn dal i gael ei gynnwys yng Nghofrestrau Risgiau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol ac mae'r ffaith i Swyddog Twyll gael eu cyflogi ym Merthyr yn 2022/23 yn sicrhau bod pob maes o'r Fenter yn cael ei gynnwys ar ran Archwilio Mewnol gan gynnwys prosesu a chydlynu gwaith paru data'r Fenter ag

Adrannau Gwasanaeth a gwaith perthnasol arall. Mae'r Swyddog Twyll yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol i sicrhau bod hyn yn cael ei fonitro'n unol â hynny.

Mae gan y Cyngor Bolisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd a Strategaeth a Fframwaith Gwrth-dwyll 2021/22 i 2024/25. Mae'r Polisi, Strategaeth a Fframwaith yn nodi rolau a chyfrifoldebau, nodau ac amcanion, risgiau twyll, cynllun gweithredu a siart llif cynllun ymateb i dwyll. Ym mis Ionawr 2023, darparwyd adroddiad Atal Twyll i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dangos y gwahanol raddau o gynnydd a wnaed ers gweithredu'r Polisi a Strategaeth ac ers cyflogi Swyddog Twyll.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisi chwythu'r chwiban newydd wedi'i ddiweddaru a gymeradwywyd yn y Cyngor Llawn ar 8 Chwefror 2023. Yna anfonodd y Prif Weithredwr e-bost i bob aelod o staff yn eu hysbysu bod y polisi wedi'i ddiweddaru ac yn eu hatgoffa o'r broses ar gyfer gwneud cyfeiriadau petaent yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamymddwyn.

**b) Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid.**

Mae'r Cyngor yn parhau i nodi gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori newydd yn unol â'r Siarter Ymgynghori. Ymgynghori ac ymgysylltu yw un o'r prif arfau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i hysbysu a deall barn a safbwyntiau trigolion lleol, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill. Mae'r tîm yn parhau i adolygu eu prosesau gwrando ac ymgysylltu i gynyddu cyfranogiad rhanddeiliaid. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn ailsefydlu Panel Ffocws y Cwsmeriaid ac yn edrych ar sut i ymgysylltu'n well â phobl ifanc 16-25 oed. Mae'r Strategaeth Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu ddrafft yn adlewyrchu elfennau o gynllun gwella'r Cyngor wrth symud ymlaen. Mae hon wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ym mis Ebrill 2023 ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 12 Gorffennaf 2023. Mae sianeli cyfathrebu allanol a mewnol y Cyngor fel a ganlyn:

- Cylchgrawn Cyswllt
- Mewnrwyd fewnol y Cyngor
- Defnydd o gyfryngau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Defnyddio defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer grwpiau cynllunio
- Blog yr Arweinydd
- Cyfryngau Cymdeithasol gan gynnwys Facebook a Twitter
- Cysylltiadau fideo
- Gwefan y Cyngor
- Cyfleusterau Arwyddion Electronig
- Gwell sianeli mynediad telathrebu
- Ymgynghori penodol ar raglenni newid e.e. Sesiynau Gwybodaeth y Prif Weithredwr, Blog y Prif Weithredwr
- Sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb fel sesiynau galw heibio a sioeau teithiol

Dros y deuddeg mis diwethaf mae'r Cyngor wedi gweld 17,000 o ddilynwyr i'w wefan Facebook, 11,500 yn dilyn gwefan Twitter y Cyngor a bron i 2,100 yn defnyddio Instagram fel platfform ymgysylltu ychwanegol.

Mae gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu yn cael eu cynnal yn bennaf gan ddefnyddio hwb ymgynghori digidol Smart Survey a bu mwy o ymgysylltu drwy blatfformau digidol mewn perthynas ag ymgynghoriadau cyhoeddus. Caiff y porthol hwn ei gyhoeddi trwy wefan y Cyngor (www.merthyr.gov.uk), gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol a chylchgrawn Cyswllt. Mae panel dinasyddion ar gyfer Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn fath arall o ymgysylltu ac adolygwyd aelodau o'r grŵp hwn yn 2021 i sicrhau bod pob rhan o'r gymuned yn cael ei chynnwys, ond prin oedd y diddordeb a fynegwyd yn ystod y broses hon.

Fel rhan o newidiadau i ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, mae'n ofynnol i bob cyngor lunio Strategaeth Gyfranogiad sy'n nodi dull y Cyngor o annog cyfathrebu ac ymgysylltu dwy ffordd. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut y gall trigolion gymryd mwy o ran ym mhroses benderfynu'r Cyngor. Mae'r Strategaeth Gyfranogiad ddrafft wedi'i chyflwyno a'i chraffu yn y Pwyllgor Craffu Corfforaethol Corfforaethol ar 1 Chwefror 2023, ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 12 Gorffennaf 2023. Caiff ymgyrch bellach ei chynnal eleni, fel rhan o'r Strategaeth Gyfranogiad newydd.

Y Tîm Cyfathrebu ac Ymgynghori Corfforaethol o fewn y Cyngor sy'n gyfrifol am ymgynghori ac ymgysylltu.

Mae adborth o ymgynghoriadau cyhoeddus a gweithgareddau ymgysylltu (lle byddai unrhyw newid sylweddol mewn gwasanaeth neu lefel uchel o ddiddordeb cyhoeddus) yn cael ei fwydo'n ôl i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a'r Cyngor Llawn. Caiff gweithdai cynghorwyr eu cynnal hefyd, lle caiff adborth o'r ymgynghoriadau cyhoeddus a gweithgareddau ymgysylltu eu trafod.

Drwy gydol unrhyw ymarferiad ymgynghori ac ymgysylltu, bydd grŵp herio yn cael ei sefydlu a bydd yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r ymgynghoriad ac ystyried unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r broses yn seiliedig ar adborth gan y cyhoedd. Bydd y grŵp herio yn cynnwys swyddogion maes gwasanaeth perthnasol, cynrychiolydd Cyfreithiol, Swyddog Cyfathrebu ac Ymgynghori. Bydd yr Aelod Ward Lleol yn cael gwybod am farn rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad a hefyd y canlyniad pan ddaw'r broses i ben.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynrychioli partneriaeth statudol o sefydliadau sector cyhoeddus a gwirfoddol. Cynhaliwyd ymgynghoriad eang wrth ddatblygu Asesiad

Llesiant Cwm Taf Chynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg. Mae'r Cyngor yn rhagweithiol gyda'r holl ymgynghori ac ymgysylltu ar draws Ôl Troed Cwm Taf Morgannwg trwy weithio'n agosach mewn partneriaeth trwy gyfarfodydd Grŵp Ymgysylltu Cyhoeddus Strategol ac Ymarferwyr. Ymgysylltwyd â'r cyhoedd fel rhan o'r broses i gynnal yr Asesiad Llesiant i lywio'r Cynllun Llesiant ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac ymgysylltwyd ac ymgynghorwyd yn bellach i lywio Datganiad Llesiant y Cyngor a'r amcanion sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Adolygwyd hyn ar lefel ranbarthol (tîm prosiect eang ar draws Cwm Taf Morgannwg) ac ar lefel leol (y Cyngor trwy dîm prosiect mewnol). Arweiniodd hyn at ddatblygu cynllun newydd ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynllun Llesiant Corfforaethol wedi'i adnewyddu.

Mae lefel yr ymgysylltu wedi gwella'n sylweddol drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cwm Taf a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cynnal yr ymgynghoriad rhanbarthol, ac mae'r Bwrdd yn newid i ychwanegu Pen-y-bont ar Ogwr at y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn 2023-24.
I gefnogi gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mae'r grŵp Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu yn gweithio'n agos i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn deall y gwaith a'i nod o newid y ffordd rydym yn gwasanaethu'r cyhoedd.

Mae holl agendâu, adroddiadau a chofnodion y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth iddynt gael eu cyhoeddi. Ers mis Medi 2020 ac oherwydd y pandemig COVID-19 cynhaliwyd pob cyfarfod o bell trwy Microsoft Teams ac o ganlyniad mae cyfarfodydd y pwyllgor yn cael eu recordio a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Er bod ein cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb unwaith eto, rydym wedi cyflwyno dull hybrid, sy'n dal i ganiatáu mynediad o bell ar gais.

Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi cwynion corfforaethol a pholisi cwynion gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau ei fod yn ymdrin yn effeithiol ag unrhyw bryderon neu gwynion sydd gan gwsmeriaid am wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

Y nod yw mai ein gweithdrefn cynrychiolaeth a chwyno yw sicrhau gwell gwasanaeth i'r holl bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac fe'i hategir gan yr egwyddorion allweddol canlynol:

- Ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o safon;
- Hygyrch a chefnogol i'r rhai ag anghenion penodol;
- Yn brydlon ac yn ymatebol gyda datrysiad cyn gynted â phosibl; Elfen gref o ddatrys problemau;
- Wedi'i weithredu heb ragfarn na gwahaniaethu;

• Yn cadw at yr egwyddor o gyfle cyfartal.

Mae'r Cyngor yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at gwynion ac yn eu gweld fel ffurf werthfawr o adborth, sy'n cynorthwyo i ddatblygu a gwella gwasanaethau. Mae cwynion hefyd yn rhoi cyfle i ddysgu gwersi lle nad yw gwasanaeth wedi cyrraedd y safon ddisgwyliedig.

Yn 2022/23, derbyniwyd cyfanswm o 514 o gwynion corfforaethol gan y Cyngor. Mae hyn yn gynnydd ar y flwyddyn flaenorol. Bydd data pellach yn cael ei ddarparu yn yr Adroddiad Blynyddol Corfforaethol yr amcangyfrifir y bydd yn cael ei baratoi erbyn mis Tachwedd 2023.

Mae canmoliaeth a chwynion yn rhan o ddangosfwrdd corfforaethol y Cyngor. Gall y data gael ei ddefnyddio i lywio'r adolygiadau busnes chwarterol. Mae cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu hadrodd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu yn flynyddol a bydd adroddiad 2022/23 yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach eleni. Yn ogystal â hyn, cyflwynwyd Cwynion Corfforaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar Adolygu ac Asesu Ymdrin â Chwynion ac Effeithiolrwydd a gyflwynwyd ar 28 Tachwedd 2022.

**c) Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.**

Yn dilyn penodi Bwrdd Gwella a Sicrwydd, cynhaliwyd ymarferiad asesu cyflym. Er mwyn ymateb i ganlyniadau'r asesiad hwn, datblygodd y Cyngor Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella 2020-25.

Mae'r Cynllun Adfer Trawsnewid a Gwell yn ddogfen fyw sy'n galluogi'r Cyngor i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd wrth adfer ar ôl y pandemig, trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio a gwella'r modd y caiff canlyniadau eu darparu i'n trigolion. Bydd y cynllun yn darparu llwybr gwella pum mlynedd ac mae’n nodi tri maes y mae angen mynd i'r afael â hwy ar frys er mwyn gallu cyflawni amcanion llesiant lleol yn llawn. Dyma’r meysydd dan sylw:

- Gwella ein Safonau Addysg;
- Cynyddu ein Gwytnwch mewn Gofal Cymdeithasol;
- Adferiad Economaidd.

Yn ogystal â'r tair blaenoriaeth hyn, mae'r Cyngor wedi nodi rhaglenni gwaith trawsbynciol a galluogi allweddol. Mae'r rhain nid yn unig o gymorth i gyflawni ein tair blaenoriaeth ond hefyd wrth fynd i'r afael â gwelliant parhaus ac argymhellion archwilio. Dyma’r meysydd dan sylw:

- Trawsnewid Digidol;
- Rhaglen Fasnachol;
- Sefydliad Iach (cefnogi'r gweithlu);
- Gwella Llywodraethu;
- Llesiant Amgylcheddol drwy'r Hierarchaeth Gwastraff a Datgarboneiddio.

Mae Swyddogion, Aelodau Etholedig ac Aelodau Craffu yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella i gefnogi gwelliant parhaus y Cyngor.

Yn 2023 cynhaliwyd asesiad o anghenion a llesiant y boblogaeth ar draws Cwm Taf Morgannwg. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg yn dod â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus blaenorol yng Nghwm Taf, sy'n cwmpasu Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, a Phen-y-bont ar Ogwr, ynghyd i ffurfio un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal Cwm Taf Morgannwg. Mae'r bwrdd newydd hwn yn cynnwys cyrff cyhoeddus, sy'n darparu gwasanaethau'n lleol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol drwy osod amcanion a fydd yn cyflawni'r Nodau Llesiant sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cafodd Cynllun y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2023-2028 ei ddiweddaru a'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 19 Ebrill 2023. Mae'r cynllun yn cynnig dau brif amcan:

- Amcan Un - Cymdogaethau lleol iach
- Amcan Dau – Cymdogaethau lleol cynaliadwy a chadarn

Mae gan y Cyngor weledigaeth gymeradwy sydd wrth galon cyflawni'r Amcanion Llesiant lleol ac amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r saith Nod Llesiant cenedlaethol a'r Pum Ffordd o Weithio (Hirdymor; Atal; Integreiddio; Cynnwys; Cydweithio). Mae gan y Cyngor hefyd Ddatganiad o Les a dogfen Ffocws ar y Dyfodol sy'n nodi'r Amcanion Llesiant lleol. Mae strategaethau ar gyfer pob Amcan Llesiant sy'n dod o dan y weledigaeth ac mae dangosyddion perfformiad priodol wedi'u nodi.

Mae canfyddiadau'r asesiad hwn wedi llywio'r gwaith o adolygu ac adnewyddu Cynllun Corfforaethol y Cyngor a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 19 Ebrill 2023. Fel mewn fersiynau blaenorol, caiff y canfyddiadau eu hadlewyrchu yng Nghynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Datganiad Llesiant a dogfennau Ffocws ar y Dyfodol y Cyngor. Defnyddir yr un dull i newid prosiectau a phennu cyllidebau, h.y. defnyddio data a gwybodaeth i lywio penderfyniadau. Defnyddir hwn wedyn i osod cyllidebau ac amcanion Llesiant lleol.

Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at fodloni’u hamcanion llesiant.

Er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw, mae gwybodaeth sy'n cefnogi pob ymgysylltiad ac ymgynghoriad cyhoeddus ar gael ar sianeli cyfathrebu'r Cyngor h.y. gwefan y Cyngor, gwefannau cyfryngau cymdeithasol, Facebook a Twitter a thrwy'r Smart Survey. Gall rhanddeiliaid ddefnyddio’r sianeli hyn i roi adborth mewn ymateb i unrhyw sesiwn ymgysylltu neu ymgynghoriad cyhoeddus gyda’r cyfle hefyd i ymateb drwy gopi papur, e-bost neu ddeiseb. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei chofnodi a'i dadansoddi gan y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol, a bydd y canlyniad yn cael ei anfon ymlaen at y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol i'w hystyried. Bydd canlyniad ac effaith y penderfyniad a wneir yn cael eu hadrodd trwy sianeli cyfathrebu'r Cyngor. Yn dilyn deddfwriaeth ynghylch hygyrchedd gwefannau, sefydlwyd gweithgor hygyrchedd. Ers hynny, gyda llawer o waith yn cael ei wneud o ran hygyrchedd y wefan, mae'r Cyngor wedi'i restru ar y brig o blith holl Gynghorau'r DU o ran hygyrchedd y wefan. Mae CBSMT hefyd wedi cynnwys bar offer hygyrchedd ar y Wefan Gorfforaethol i wella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth i drigolion, ac i gyfrannu at fynd i'r afael ag allgáu digidol.

Mae prosesau ymgysylltu cyhoeddus helaeth ar waith, gan gynnwys rheoli disgwyliadau. Mae hyn hefyd yn wir am newid mewnol. Mae achosion busnes, dogfennau cychwyn prosiect ac adroddiadau cyflawni yn cynnwys asesiadau yn erbyn pennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r Cyngor wedi parhau i gynnal ei arolwg trigolion gyda chanlyniadau yn llywio penderfyniadau yn y dyfodol. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio yn hunanasesiad y Cyngor.

Caiff ymarferion ymgynghori ar y gyllideb eu cynnal ledled y Fwrdeistref Sirol i werthuso blaenoriaethau cwsmeriaid ar gyfer dyrannu adnoddau prin. Mae'r rhain fel arfer ar ffurf sioeau teithiol y Cabinet, arolygon ar-lein ac ymgysylltu drwy’r cyfryngau cymdeithasol. Gofynnir hefyd am farn cwsmeriaid ar gynnydd yn Nhreth y Cyngor er mwyn cynorthwyo gwasanaethau lleol. Mae'r ymgysylltiad hwn yn helpu i lywio'r broses o Bennu'r Gyllideb ac mae hefyd yn hysbysu'r cwsmer o'r pwysau ariannol y mae'r Cyngor yn ei wynebu wrth ddyrannu adnoddau yn ôl gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd. Mae achosion busnes yn cael eu datblygu a’u herio gan ddefnyddio’r saith Nod Llesiant, y Pum Ffordd o Weithio, yr Amcanion Llesiant rhanbarthol a’r Amcanion Llesiant lleol. Dros gyfnod o ddeuddeng wythnos o fis Hydref 2022 i fis Ionawr 2023, ymgysylltwyd â thrigolion y Fwrdeistref Sirol trwy arolwg ar-lein trwy wefan y Cyngor a thudalennau cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, roedd copïau papur o'r arolwg ar gael yn y

Ganolfan Ddinesig a chynhaliodd y Cabinet gyfres o sioeau teithiol i hwyluso ymgynghori wyneb yn wyneb.

Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei llunio am gyfnod o bedair blynedd yn seiliedig ar gynigion a gyflwynwyd gan Brif Swyddogion/Uwch Reolwyr, gyda chefnogaeth y Cabinet a chymeradwyaeth y Cyngor. Mae goblygiadau refeniw penderfyniadau cyfalaf wedi'u cynnwys fel rhan o Gynllun Ariannol Tymor Canolig integredig, er enghraifft goblygiadau costau cyllido cyfalaf benthyca i gefnogi'r gwariant cyfalaf. Ariennir cyfran sylweddol o'r gwariant cyfalaf trwy grantiau allanol a dderbynnir gan nifer o gyrff dyfarnu allanol sy'n ddarostyngedig i delerau ac amodau rhagnodol trwyadl.

Mae Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru yn sbardun allweddol ar gyfer gweithgarwch caffael. Mae Bwrdd Masnachol y Cyngor yn llywio'r broses o gymhwyso effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gweithgarwch sy'n ymwneud â chaffael. Mae buddion cymunedol yn cael eu profi ar bob contract dros £1miliwn. Mae'r Cyngor yn cydweithio'n helaeth â chyrff cyhoeddus eraill ar draws y portffolio caffael ac mae'r strategaeth gaffael yn cefnogi'r Ddeddf gan gynnwys ymgysylltu â chyflenwyr. Darperir cystadleuaeth hygyrch agored drwy offer e-gaffael a ariennir gan Lywodraeth Cymru (GwerthwchiGymru, etenderwales, AWARD, marketplace), a darperir prosesau safonol syml drwy P2P. Diweddarwyd Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021. Bydd sector cyhoeddus Cymru yn dilyn deg egwyddor ar gyfer caffael, yn seiliedig ar Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru.

O ran gwrthdaro buddiannau, mae Caffael bellach yn defnyddio ffurflen gwrthdaro buddiannau Gwasanaeth Masnachol y Goron ar werthusiadau tendro priodol. Mae'n rhaid i werthuswyr lofnodi'r datganiad cyn y gellir gwerthuso tendr.

Wrth wahodd tendrau, mae'r broses yn sicrhau bod y tendr mwyaf manteisiol yn cael ei gymeradwyo ac yn gosod amodau mewn perthynas â chydymffurfio ag amcanion llesiant y Cyngor a'r Ddeddf fel y bo'n briodol.

Caiff perfformiad ei fonitro trwy hunanarfarnu a herio perfformiad. Mae perfformiad gwasanaethau hefyd yn cael ei herio yng nghyfarfodydd y pwyllgor craffu. Mae swyddogion yn craffu drwy gyfarfodydd bwrdd uwch reolwyr, cyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol ac adolygiadau perfformiad a gwelliant chwarterol (gan ddefnyddio Dangosfwrdd Corfforaethol y Cyngor). Mae'r Cyngor yn llunio adroddiad perfformiad blynyddol, a bydd hwn yn cael ei ddisodli gan adroddiad hunanasesu yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad 2021/22 gan y Cabinet ar 9 Tachwedd 2022, a bydd Adroddiad Perfformiad 2022/23 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2023.

Mae gan y Cyngor Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar waith sy'n rhan hanfodol o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn gofrestr risgiau sy'n galluogi'r Cyngor i ganolbwyntio ar reoli a lliniaru'r risgiau corfforaethol mwyaf arwyddocaol a allai effeithio ar y sefydliad a/neu'r gymuned.

Caiff Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor, wedi'i diweddaru, ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet i'w chymeradwyo, ynghyd ag Adroddiad Blynyddol ar reoli risg. Mae hyn yn digwydd bob chwarter. Yn ystod 2022/23, cyflwynwyd y gofrestr risgiau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Gorffennaf 2022, 24 Hydref 2022, 27 Chwefror 2023 a 12 Mehefin 2023. Mae adrodd ar reoli risg yn rhan annatod o drefniadau llywodraethu risg y Cyngor. Caiff Swyddogion Arweiniol y Tîm Rheoli Corfforaethol eu gwahodd i gyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar sail rhaglen dreigl i adrodd ar gynnydd o ran rheoli eu Risgiau Corfforaethol. Cynhelir gweithdai o leiaf bob chwarter gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Cynhelir gweithdai pellach gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet. Mae gan y Cyngor Bolisi a Strategaeth Risgiau Corfforaethol wedi'u diweddaru a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 7 Rhagfyr 2022. Mae trefniadau hyfforddiant yn parhau yn eu lle ac yn cael eu cryfhau.

O ran sicrhau mynediad teg i wasanaethau, aeth y Cyngor ati i ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024 yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae pum Amcan Cydraddoldeb wedi'u nodi yn y Cynllun:

- Ymgysylltu a Chyfranogi Cynhwysol:
  Ymgysylltu â Dinasyddion er mwyn iddynt gymryd rhan a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, er mwyn deall ac ymateb i anghenion cymunedau Merthyr.
- Cydlyniant Cymunedol:
  Hyrwyddo a hwyluso cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol.
- Gweithlu Cynhwysol ac Amrywiol:
  Creu gweithlu cynhwysol ac amrywiol, sy'n adlewyrchu'r cymunedau ym Merthyr Tudful.
- Rhywedd / Cyflog Cyfartal:
  Sicrhau tegwch cyflog ar draws y Cyngor. Gwasanaethau hygyrch; deall a dileu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor.
- Gwasanaethau Hygyrch:
  Deall a chael gwared ar y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi'r Weledigaeth Cydraddoldeb a ganlyn ar gyfer Merthyr Tudful:

"Dyma fan ble y caiff amrywiaeth ei gwerthfawrogi a'i pharchu a ble y gall pawb gyfranogi, llewyrchu a chael y cyfle i gyflawni ei botensial yn llwyr heb unrhyw wahaniaethu na rhagfarn."

Daeth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i rym ar 31 Mawrth 2021 sy'n golygu bod yn rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, wrth wneud penderfyniadau strategol. Er mwyn sicrhau bod y ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni, daeth yr Asesiad Effaith Integredig i rym ar 31 Mawrth 2021. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i ddiweddaru'n ddiweddar i gynnwys yr amcanion llesiant Corfforaethol newydd. Mae hyfforddiant ar yr Asesiad Effaith Integredig, wedi'i ddiweddaru, wedi'i ddarparu i uwch reolwyr a Chynghorwyr. O 1 Ebrill 2013 mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i ddiweddaru ymhellach i gynnwys Amcanion Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn nodi cynnydd ar draws pob agwedd ar ei waith cydraddoldeb, gan gynnwys cynnydd ar gyflawni ei Amcanion Cydraddoldeb yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Cymeradwywyd Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2021/22 gan y Cabinet ar 11 Ionawr 2023, a bydd adroddiad Cydraddoldeb blynyddol 2022/23 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar ddechrau 2024.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo ei Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r Strategaeth yn cyflwyno'r weledigaeth ganlynol i'r Gymraeg ym Merthyr Tudful:

Merthyr Tudful: #Shwmaeronment – Bwrdeistref Sirol lle mae'r Gymraeg yn cael ei chlywed, ei siarad a'i dathlu ym mhobman, waeth beth yw'r cefndir.

A'i phrif darged yw:
- Cynyddu amlder y nifer o bobl sy'n siarad Cymraeg ym Merthyr Tudful o ddydd i ddydd i o leiaf 10%.
- Bydd uchelgeisiau'r Strategaeth yn cael eu hystyried o dan dri nod strategol wedi'u hategu gan thema gyffredinol Partneriaeth.

Y tri nod strategol yw:
- Mae plant a phobl ifanc yn cael digonedd o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd;
- Mae Merthyr Tudful yn Fwrdeistref Sirol sydd â'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o'i gweithgareddau cymdeithasol a dinesig;
- Mae cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws yr holl weithluoedd.

Er hwylustod, bydd y rhain yn cael eu crynhoi fel:

- Plant a Phobl Ifanc
- Cymuned a Theulu
- Gweithlu

**d) Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.**

Mae'r gwaith o gyflawni newid corfforaethol yn cael ei fonitro a'i gynorthwyo drwy Grŵp Llywio Adfer, Trawsnewid a Gwella sydd hefyd yn rhan o'r fframwaith caffael a threfniadau llywodraethu. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o bob rhan o'r Cyngor, e.e. Cyfreithiol, Caffael, Risg, Cydraddoldeb, Perfformiad, Cyllid, Cyfathrebu Corfforaethol, Adnoddau Dynol, Newid Busnes a Rheoli Prosiectau. Yn dilyn cyflawni, mae'r Bwrdd Cyllideb yn monitro'r sefyllfa ariannol. Caiff perfformiad ei fonitro trwy hunanarfarnu a herio perfformiad. Mae perfformiad gwasanaethau hefyd yn cael ei herio yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu (a swyddogaethau craffu eraill) a chraffu gan swyddogion ar ffurf adolygiadau gwella perfformiad chwarterol. Mae gweithdai ychwanegol ar waith ar gyfer Aelodau Etholedig ac Aelodau Craffu, sy'n canolbwyntio ar newidiadau allweddol, er enghraifft oherwydd deddfwriaeth a Chynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella y Cyngor. Mae gweithdai penodol wedi eu cynnal ynglŷn â gwella Swyddogaeth Graffu'r Cyngor. Mae'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella bellach yn rhan o Gynllun Corfforaethol newydd 2023-28. Ers iddo gael ei gymeradwyo mae unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill bellach wedi'u cynnwys yn y cynlluniau cyflawni corfforaethol.

Mae’r gwaith o herio dogfennau’n cael ei gyflawni gan amryw Fyrddau perthnasol fel rhan o’r trefniadau llywodraethu. Mae’r Bwrdd Gwella a Sicrwydd (sydd ar waith drwy Lywodraeth Cymru fel rhan o gais gan y Cyngor am gymorth gan Lywodraeth Cymru) bellach wedi’i dynnu i lawr. Mae pob adroddiad i'r Cabinet a'r Cyngor yn gofyn am Asesiad Effaith Integredig ar Gydraddoldeb (fel rhan o Asesiad Effaith Integredig y Cyngor). Mae’r herio yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn cael ei chyflawni fel rhan o’r broses hon.

Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli prosiect sy'n asesu risgiau, adnoddau a chyllid (yn ogystal ag elfennau eraill o'r cynnig). Mae'r templed achos busnes yn nodi pob opsiwn ar gyfer arfarnu. Mae dogfennaeth cychwyn prosiectau yn nodi amserlenni a gwybodaeth ychwanegol yn ôl yr angen. Mae newidiadau wedi'u gwneud (yn enwedig i ddogfen Asesiad Effaith Integredig y Cyngor) yn sgil y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd. Mae Asesiad Effaith Integredig y Cyngor wedi'i ymgorffori yn ei fframwaith rheoli prosiectau. Mae'r fframwaith rheoli prosiectau wedi'i ddiweddaru i gynnwys elfennau o'r Polisi a Strategaeth Risgiau

Corfforaethol sydd wedi'u diweddaru, gan gynnwys templedi asesu risg newydd. Mae'r fframwaith hefyd yn cael ei adolygu i'w wneud yn haws i swyddogion ei gwblhau a'i wneud yn fwy hygyrch.

Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn asesu adroddiadau cyn y Cabinet a'r Cyngor ac mae adborth o'r dogfennau a'r Byrddau ar gael. Cynhelir cyfarfod bob pythefnos rhwng y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

Mae cylchoedd cynllunio a rheoli sy'n cwmpasu cynlluniau strategol a gweithredol, blaenoriaethau a thargedau wedi'u sefydlu. Mae'r rhain yn cael eu darparu ar hyn o bryd fel rhan o swyddogaethau'r Tîm Rheoli Corfforaethol a Chraffu. Mae gan Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol gylchoedd rheoli ychwanegol i fodloni gofynion allanol (gan gynnwys protocolau diogelu). Mae Blaengynllun Cabinet 2022-23 ar gael ar y wefan. Mae gweithdai anffurfiol ychwanegol ar waith. Mae mwy o ffocws yn cael ei roi ar flaengynllun y 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'. Mae hyn yn cyd-fynd â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae adborth o unrhyw broses ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd gan gynnwys Ymgynghori ar y Gyllideb yn cael ei ddadansoddi gan yr Adran Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu ac mae adroddiad o'r canfyddiadau'n cael ei ystyried gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ac aelodau'r Cabinet. Yn dilyn hyn cyflwynir adroddiad ychwanegol i'r Cyngor Llawn er mwyn i benderfyniad gael ei wneud. Mae'r penderfyniad hwn yn cael ei gyfleu i'r holl randdeiliaid trwy sianeli cyfathrebu'r Cyngor h.y. gwefan y Cyngor, gwefannau cyfryngau cymdeithasol a chylchgrawn cymunedol Cyswllt.

Ar gais ein trigolion, bydd gwybodaeth a digwyddiadau ychwanegol yn cael eu cynnal gyda chefnogaeth Cabinet y Cyngor.

Caiff ymgysylltiad mewnol ei gynnal â staff trwy fewnrwyd y Cyngor, Blog y Prif Weithredwr, Sioeau Teithiol, ac e-byst staff a fforymau staff.

Caiff dangosyddion perfformiad lleol priodol (yn ogystal â dangosyddion perfformiad statudol neu genedlaethol eraill) eu defnyddio i nodi sut y caiff perfformiad gwasanaethau a phrosiectau ei fesur.

Adeiladwyd ar gapasiti ar draws gwasanaethau cymorth yn ogystal â gwasanaethau rheng flaen. Mae hyn yn cynnwys cryfhau sut mae'r Cyngor yn defnyddio gwybodaeth a data i adolygu perfformiad gwasanaethau. Mae proses adolygu busnes chwarterol yn cael ei dylunio (adolygiadau perfformiad a gwelliant chwarterol (QPIRs)). Mae hyn yn cael ei wneud ar y cyd ag Aelodau Etholedig. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a

chynghorau eraill i sicrhau ei fod yn gweithio/trawsnewid yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.

Wrth fynd i'r afael â gofynion lleihau'r gyllideb mae achosion busnes yn cynnwys nifer o opsiynau ynghyd ag asesiadau risg a chydraddoldeb ac amserlenni rhagamcanol ar gyfer cyflawni.
Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynorthwyo gwaith cynllunio ariannol a phenderfyniadau corfforaethol ac mae wedi'i integreiddio ag Amcanion Llesiant, Cynllun Rheoli Asedau, Cynllun Sefydliad Iach, Cyd-destun Ariannol, Cyllideb Refeniw, Rhaglen Gyfalaf, Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn a Pholisi Rheoli Trysorlys y Cyngor.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor am cwmpasu cyfnod o bedair blynedd gan integreiddio gwariant refeniw a chynlluniau cyfalaf sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol. Caiff y Rhaglen Gyfalaf ei gosod am bedair blynedd. Mae rhagamcaniadau gofynion cyllideb pedair blynedd yn cael eu llunio ar gyfer refeniw sy'n nodi diffygion cyllidebol rhagamcanol ar gyfer blynyddoedd dau i bedwar. Wrth bennu fforddiadwyedd cynlluniau'r Cyngor, caiff y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei lunio ar sail cyllid dangosol a hysbyswyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn hysbysu faint o adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor wrth ddiffinio'r amlen fforddiadwyedd.

Mae Cyfrifwyr â chymwysterau proffesiynol a rhannol gymwys yn gweithio gyda Rheolwyr Gwasanaeth i sefydlu gofynion cyllidebol a nodi effaith y gostyngiadau cyllidebol arfaethedig. Caiff amserlenni eu cyfathrebu ynghyd â disgwyliadau. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cyfuno uchelgeisiau cyfalaf a goblygiadau refeniw dros gyfnod pedair blynedd y cynllun.

Er bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar hyn o bryd ond yn nodi diffygion cyllidebol rhagamcanol ar gyfer blwyddyn dau i bedwar, mae dadansoddiad sensitifrwydd mewn perthynas â Chyllid Llywodraeth Cymru, cynyddiadau'r Dreth Gyngor a Dyfarniad Cyflog yn caniatáu i effaith newidiadau yn yr amgylchedd allanol gael eu pennu. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth ystyrlon bellach i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau.

**e) Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'u unigolion sydd ynddo.**

Mae cyflwyno newid corfforaethol yn cael ei fonitro a'i gefnogi gan Grŵp Llywio fel rhan o lywodraethu Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella y Cyngor. Mae'r grŵp hwn yn cysylltu â Bwrdd Cyllideb y Cyngor. Caiff unrhyw arbedion o brosiectau eu monitro gan y Bwrdd Cyllideb ynghyd â'r sefyllfa ariannol ehangach. Caiff perfformiad ei fonitro trwy hunanarfarnu a herio perfformiad. Mae perfformiad y gwasanaeth hefyd yn cael ei herio yng nghyfarfodydd y

Pwyllgor Craffu. Mae herio gan swyddogion wedi'i ymgorffori yn llywodraethiant y Cyngor drwy adolygiadau perfformiad a gwella chwarterol a chyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol a thrwy ddefnyddio data yn well.

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol (2014-19) yn cyflwyno cynllun pum mlynedd y Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau sy'n parhau'n berthnasol ac yn ei le ar gyfer 2022/23. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol Drafft wedi'i adolygu gan y Grŵp Rheoli Asedau a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu. Cymeradwywyd y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2023-2028 gan y Cyngor Llawn ar 14eg Mehefin 2023 ac mae'n cynnwys portffolio eiddo sy'n cyd-fynd yn agos â gofynion gwasanaeth a blaenoriaethau corfforaethol, fodd bynnag bydd angen ei ddiweddaru i adlewyrchu'r blaenoriaethau corfforaethol newydd a nodir yn y fersiwn newydd. Cynllun Corfforaethol mabwysiedig 2023-28. Mae yna gamau cadarn yn ei lle ar gyfer adolygu eiddo sydd yn dadansoddi gofynion y gwasanaeth, yn argymell bod eiddo'n cael ei resymoli lle bo'n briodol, ac yn rhyddhau eiddo dros ben i ariannu'r rhaglen gyfalaf.

Caiff gweithrediadau, perfformiad a'r defnydd o asedau eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol. Caiff asedau nad oes eu hangen eu hadolygu'n barhaus ac argymhellir eu gwerthu lle y bo'n briodol.

Defnyddir technegau meincnodi sganio'r gorwel wrth ddatblygu strategaethau ac achosion busnes ar gyfer newid. Ymgymerir â meincnodi gydag Awdurdodau Lleol eraill, y Sector Cyhoeddus a'r Sector Preifat lle bo'n briodol e.e. pan gyflwynir cynigion arbedion cyllidebol Defnyddir meincnodi hefyd i asesu Gwerth am Arian Gwasanaethau'r Cyngor, er enghraifft cyrhaeddiad addysgol.

O ran gweithredu partneriaethau'n effeithiol, mae gan y Cyngor Restr Wirio Categori Risg fel rhan o'i broses nodi risgiau. Mae'r Rhestr Wirio yn cynnwys y canlynol mewn perthynas â risgiau sy'n gysylltiedig â phartneriaeth:

- Ystyried, er enghraifft, yr effaith o weithio gyda sefydliadau yn y sector preifat a/neu'r sector cyhoeddus, fframweithiau atebolrwydd a ffiniau partneriaethau, prosiectau mawr gyda chyd-fentrau, gwasanaethau allanol, rheoli perthynas, rheoli newid / strategaethau ymadael, parhad busnes a rhwymedigaethau cytundebol.

Mae'r Rhestr Wirio hefyd yn rhan o Fframwaith Rheoli Prosiect diwygiedig y Cyngor.

Mae'r Polisi a Strategaeth Risg Gorfforaethol wedi'i diweddaru yn cynnwys agweddau ar gaffael moesegol ac adnabod risg yn y gadwyn gyflenwi.

Cynyddwyd faint o waith partneriaeth a wneir fel rhan o'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella ac yn ein hymateb i effeithiau pandemig Covid-19. Er enghraifft, mae gwaith partneriaeth yn cynnwys bod y Cyngor yn rhan o ddau brosiect Cronfa Trawsnewid Digidol Llywodraeth Cymru:

- Prosiect Data – Cynghorau RhCT, Pen-y-bont ar Ogwr a Phowys;
- System gwmwl i ddarparu hyfforddiant ar gyfer Gofal Cymdeithasol – Cynghorau Blaenau Gwent a Chaerffili.

Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chynghorau eraill wrth ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r holl brosiectau hyn yn caniatáu i'r Cyngor gyflawni'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella yn well, gan olygu y gall y Cyngor, yn ei dro, gyflawni'r amcanion llesiant yn well er mwyn cyflawni gweledigaeth y Cyngor.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig hefyd yn cynnwys risg yn ymwneud â phartneriaeth fel rhan o'r pum ffordd o weithio. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn gofyn y canlynol o dan gategori Cydweithio (Cydweithio'n weithredol â phartneriaid eraill (mewnol ac allanol) i gyflawni amcanion llesiant):

- A yw'r partneriaid yn nodi, deall a rheoli eu rôl yn y bartneriaeth yn y ffordd fwyaf priodol – yn nodi ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant y bartneriaeth a'r cydberthnasau, gan nodi'r risgiau, beth allai fynd o'i le, beth allai atal y bartneriaeth rhag cyflawni'i amcanion a'i ganlyniadau?
- A yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â chreu, sefydlu, rheoli a chyflawni partneriaethau llwyddiannus wedi'u nodi ac yn cael eu rheoli? Mae enghreifftiau o rai o'r risgiau y gellid eu hystyried yn cynnwys ariannol, cyfreithiol, enw da, adnoddau'n gwrthdaro, dibyniaeth ar bartner penodol, a pha mor dda mae partneriaid eraill yn rheoli risg.

Mae hyn wedi'i gymhwyso i achosion busnes a phrosiectau fel rhan o fframwaith rheoli prosiectau'r Cyngor.

Mae'r Arweinwyr Gwleidyddol yn ymwybodol o'r rheolau sy'n ymwneud ag aelodaeth pwyllgorau o ran cydbwysedd gwleidyddol a chyfyngiadau ar gyflogau uwch swyddogion. Yn sgil hynny, maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod enwebiadau'n cwmpasu pob sedd ar y pwyllgorau, y cyrff allanol a'r byrddau partneriaeth.

O brofiadau a gafwyd yn etholiad 2017 pan etholwyd nifer fawr o Gynghorwyr newydd, ffurfiwyd rhaglen gynefino helaeth i sicrhau bod gan aelodau sy'n dychwelyd ac aelodau newydd yn 2022 ddarlun clir o'r rolau a'r cyfrifoldebau a sut mae'r sefydliad yn gweithredu yn

syth ar ôl yr etholiad. Roedd hyn yn cynnwys gweithdai, sesiynau briffio a darparu gwybodaeth yn ysgrifenedig a ar lafar.

Mae’r gweithgareddau cynefino, hyfforddiant a datblygiad i Gynghorwyr wedi parhau, ynghyd â pherthynas weithio agos rhwng y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet gan gynnwys nifer o gyfarfodydd ar y cyd. Mae’r staff a’r Aelodau wedi addasu i fynediad o bell a gweithio ystwyth sy’n galluogi cyfranogiad, a gall amser gael ei ddefnyddio’n fwy effeithiol.

Cafwyd eglurhad ynghylch rôl yr Hyrwyddwyr Aelodau a’u hatebolrwydd a bydd gofyn iddynt adrodd yn ôl ar eu gwaith a’i effaith ar weledigaeth ac amcanion llesiant y Cyngor.

Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr presennol yn cydweithio'n dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u priod rolau. Mae gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr rolau arweinyddol diffiniedig ac unigryw sydd wedi'u nodi mewn sawl man yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae'r mater hwn yn cael ei adolygu am fod angen diffinio’r rolau yn gliriach ac mewn mwy o fanylder ac er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng rolau a chyfrifoldebau’r naill a’r llall. Darparodd y Bwrdd Gwella a Sicrwydd gymorth penodol yn y maes hwn, a derbyniwyd hyfforddiant i aelodau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae system rheoli perfformiad wedi bod ar waith ynghyd â system gwerthuso rheoli perfformiad o'r enw Ffocws ar eich perfformiad. Mae gwaith pellach yn parhau gyda'r broses rheoli perfformiad wrth i'r Cyngor geisio gwreiddio hyn ymhellach ar draws pob maes gwasanaeth. Defnyddir y system i gasglu'r data ar gyfer pob unigolyn wrth gyfarfod â rheolwyr llinell i osod amcanion, adolygu amcanion ac yna adolygu perfformiad y flwyddyn gyfan. Mae hyfforddiant wedi'i gynnig ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn i reolwyr a staff ddeall y broses ac mae hefyd wedi'i gynnwys yn y trefniadau Sefydlu Corfforaethol a Sefydlu Rheolwyr.

Datblygwyd y cynllun Sefydliad Iach yn 2020 - 2021 o fewn y cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella. Mae gwaith pellach wedi parhau ar y cynllun sefydliad iach a rhaglenni pellach fel cynllunio'r gweithlu. Mae pob un o'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol wedi cynnal gweithdy cynllunio'r gweithlu i ddeall sut mae hyn yn berthnasol i'w meysydd nhw ac mae pob rheolwr yn cael cymorth gan Adnoddau Dynol a Datblygu Galwedigaethol i ddatblygu eu cynlluniau gweithlu eu hunain a fydd yn parhau drwy gydol y flwyddyn.

Mae yna nifer o bolisïau iechyd a diogelwch ar waith i gynnal iechyd a llesiant y gweithlu, a chefnogir y staff i gynnal eu llesiant corfforol a meddyliol eu hunain. Mae'r polisïau hyn yn cynnwys:

- Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol;
- Polisi Asesu Risg – Gweithdrefn a Chanllawiau;
- Polisi Cymorth Cyntaf yn y Gweithle;
- Polisi Offer Sgrîn Arddangos;
- Polisi Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH);
- Polisi Cyffuriau ac Alcohol;

Mae cymorth Iechyd Galwedigaethol ar gael i'r holl staff, gan gynnwys asesiadau gan bersonél meddygol hyfforddedig, mynediad i gwnsela, ac addasiadau i weithleoedd/gweithfannau er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth a gofynion anabledd. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol bellach yn fewnol unwaith eto a chaiff ei gynorthwyo gan system feddalwedd Cohort-Cority. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi parhau gyda Case UK Ltd er mwyn gallu defnyddio cynllun Able Future yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas â chymorth iechyd meddwl. Mae hwn yn wasanaeth 24 awr sy'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chwnsela ar-lein a thros y ffôn i bob aelod o staff cyflogedig y Cyngor.

Yn ystod 2022-23 cyflwynwyd nifer o raglenni lles i bob aelod o staff. Roedd y rhain yn amrywio o raglen Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, rheoli gorflinder a straen, cyhyrysgerbydol, rheolwyr yn rheoli iechyd meddwl, perfformio dan bwysau a'r Rhaglen Les a oedd yn canolbwyntio ar les emosiynol, corfforol a meddyliol.

**f) Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus mewn ffordd gadarn.**

Cynhaliwyd Hunanasesiad o Drefniadau Rheoli Risg y Cyngor yn flaenorol er mwyn sefydlu ei lefel Aeddfedrwydd Risg. Yn sgil hynny, nodwyd mai lefel Aeddfedrwydd Risg y Cyngor yw bod:

- y Trefniadau Rheoli Risg yn gweithio ac wedi'u hymwreiddio yn y sefydliad

Mae gan y Cyngor Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ei lle ynghyd â Chofrestri Risgiau Meysydd Gwasanaeth. Mae'r Cofrestri Risgiau hyn yn cofnodi ac yn adrodd ynghylch rheoli risgiau ynghyd ag achosion allai effeithio ar:

- Gyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor.
- Llesiant ein cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol
- Y sefydliad (y Cyngor).

Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei hadolygu'n ffurfiol bob tri mis gan y tîm rheoli corfforaethol a'i chymeradwyo gan y Cabinet. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei diweddaru wrth i risgiau newid/dod yn amlwg. Mae'r Cyngor yn defnyddio deunydd risg perthnasol i lywio ei waith monitro a lliniaru risg. Bydd y Cyngor yn defnyddio ei archwaeth risg wrth bennu cyllideb a datblygu a chyflawni rhaglenni.
Caiff risgiau corfforaethol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bedair gwaith y flwyddyn bob tro y mae'n adolygu'r Gofrestr Risgiau gyfan ac mae hefyd yn caniatáu rhaglen dreigl ar gyfer asesiad manylach o Risgiau Corfforaethol. Caiff pob Risg Gorfforaethol ei dynodi i Aelod Portffolio, Swyddog Arweiniol y Tîm Rheoli Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol i sicrhau bod llinellau cyfrifoldeb clir ac ymwybyddiaeth ar bob lefel o'r Cyngor. I gynorthwyo i reoli pob Risg Gorfforaethol, caiff Aelodau Tîm a Phartneriaid Allweddol hefyd eu nodi yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Caiff Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor ei baratoi gan ddefnyddio cyfuniad o'r ffynonellau risg canlynol:

- Risgiau Corfforaethol a nodwyd yng Nghofrestr Risgiau Corfforaethol y flwyddyn flaenorol.
- Dadansoddi a grwpio'r canlynol:
  - Y risgiau a nodwyd sydd â sgôr o 12 neu uwch yng Nghofrestri Risgiau Cyfarwyddwyr a Gwasanaethau.
  - Y materion a nodwyd yng Nghofrestri Risgiau Cyfarwyddwyr a Gwasanaethau.
  - Gweithdai Nodi Risgiau ar gyfer y Tîm Rheoli Corfforaethol a Chynghorwyr.

Mae gan y Cyngor Restr Wirio Categori Risg fel rhan o'i broses nodi risgiau. Nod hyn yw sicrhau y caiff y broses o nodi risgiau ei gwneud mewn ffordd strwythuredig i helpu i sicrhau bod pob categori posibl o risg yn cael eu hystyried yn hytrach na'r risgiau cychwynnol a ddaw i'r meddwl.

Mae'r Rhestr Wirio ar hyn o bryd yn seiliedig ar y Model PESTLE (Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol ac Amgylcheddol) a ddefnyddir yn helaeth ac mae wedi'i diweddaru'n ddiweddar i adlewyrchu meysydd risg eraill mewn perthynas â Chaffael ac Enw Da. Gall modelau eraill fel dadansoddiad SWOT (Cryfderau; Gwendidau; Cyfleoedd; Bygythiadau) a dadansoddiad 'tei bô' hefyd gael eu defnyddio ac maent yn rhan o Bolisi/Strategaeth Risgiau y Cyngor. Bydd cyflwyniad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, lle bydd Cynghorau'n canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau mewn ffyrdd effeithiol, effeithlon ac darbodus, yn cael ei ymgorffori yn ein llywodraethu a rheoli risgiau.

Mae diwylliant hefyd wedi'i ychwanegu yn Gategori Risg i sicrhau bod y Cyngor yn ystyried risg o safbwynt llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Mae'r pum ffordd o weithio (Hirdymor, Integreiddio, Cynnwys, Cydweithio ac Atal) hefyd wedi'u hychwanegu i'r

Rhestr Wirio i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu ynghylch risgiau.

Mae'r Cyngor wedi parhau i wella ei drefniadau rheoli risg drwy atgyfnerthu ei strategaeth risg. Mae'r Polisi a'r Strategaeth Risgiau wedi'u diweddaru, a pharhaodd y Cyngor â'i waith i fireinio ei drefniadau trwy hunan-adolygiad. Mae hyn yn cynnwys cryfhau ei sefyllfa o ran risg cyfle, archwaeth risg a goddefgarwch risg. Bydd hyn yn cael ei herio trwy gymar o Gyngor arall cyn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; cyn mynd at y Cyngor i'w gymeradwyo.

Mae Rheoli Risg yn rhan greiddiol o Becyn Cymorth Caffael y Cyngor sy'n helpu adrannau gwasanaeth a staff wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau. Mae'n helpu Caffael i reoli disgwyliadau rhanddeiliaid a hwyluso canlyniadau sydd oddi mewn i lefel goddefiant risg y Cyngor.

Mae Rheoli Risg yn elfen allweddol o Fframwaith Rheoli Prosiect y Cyngor i sicrhau ei fod yn cael ei ymgorffori i'r holl lefelau o raglenni a phrosiectau ar draws y Cyngor. Mae Rheoli Risg yn parhau i fod yn rhan annatod o Raglen Newid y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys cael Rhaglen Risg a Log Problemau mewn lle a gaiff eu monitro ac yr adroddir arnynt yn chwarterol.

Mae datblygiad y Dangosfwrdd Corfforaethol bellach yn unol â'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella, fodd bynnag mae hyn yn esblygu'n barhaus wrth i anghenion y Cyngor newid. Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol o gymorth i lywodraethu'r Cyngor, ac mae hyn hefyd yn cynorthwyo'r arweinyddiaeth a'r penderfyniadau a wneir.

Mae gan y Cyngor chwe phwyllgor craffu;

1. Cymorth Corfforaethol ac Adnoddau;
2. Dysgu a Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol;
3. Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio a Chefn Gwlad;
4. Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd;
5. Gwasanaethau Cymdeithasol;
6. Cydbwyllgor.

Mae'r pwyllgorau hyn yn cyfarfod tua bob chwe wythnos, fodd bynnag bydd y Cydbwyllgor Craffu yn cyfarfod yn ôl yr angen i ystyried eitemau sy'n berthnasol neu'n gyffredin i bob un o'r pum pwyllgor craffu arall.

Mae'r pwyllgorau craffu'n cynnwys aelodau lleol etholedig (Cynghorwyr) nad ydynt yn rhan o Gabinet y Cyngor, ynghyd â chynrychiolwyr cyfetholedig. Eu rôl yw dal y weithrediaeth i gyfrif

drwy fonitro perfformiad, herio cynigion gwariant y Cyngor, adolygu gwasanaethau, cyfrannu at ddatblygu polisi, archwilio gwaith darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Mae cryfhau swyddogaeth graffu'r Cyngor yn rhan o Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys Swyddogion, Aelodau Etholedig ac Aelodau Craffu yn cydweithio i ddatblygu a chyflawni'r rhaglen. Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac arbenigwyr allanol eraill ar gryfhau ei drefniadau craffu; mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda Chynghorau eraill i gynnig her gan gymheiriaid. Cynhaliwyd hunanwerthusiad Craffu am y tro cyntaf, ac mae hyn yn cynnwys barn Swyddogion, Aelodau Etholedig ac Aelodau Craffu. Caiff hyn ei ddefnyddio i ffurfio gwelliant y Cyngor a datblygu strategaeth-ar-dudalen. Mae'r Cyngor yn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu modiwl e-ddysgu ar gyfer Swyddogion, Aelodau Etholedig ac Aelodau Craffu ynghylch llywodraethu a chraffu. Bydd y blaengynlluniau'n cynnwys Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor ac yn defnyddio Blaengynllun y Cyngor.

Gall y Pwyllgorau Craffu "alw i mewn" holl benderfyniadau'r Cabinet. Anfonir dolen at bob Cynghorydd i agenda'r Cabinet. Hysbysir Aelodau'r Pwyllgor Craffu o'r cofnodion/penderfyniadau er mwyn iddynt benderfynu a ydynt am "alw penderfyniad i mewn". Yn ystod 2022-23, ni chafodd unrhyw un o benderfyniadau Cabinet ei "alw i mewn". Gwahoddir Aelodau'r Cabinet i fynychu cyfarfodydd y pwyllgorau craffu lle maent ar gael i ymateb i'r herio ynghylch eu meysydd cyfrifoldeb. Mae presenoldeb Aelodau Cabinet yn parhau'n uchel.

Mae'r Cyfansoddiad hefyd yn cyflwyno'r cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgorau craffu. Bob blwyddyn mae pwyllgorau craffu'r Cyngor yn llunio Adroddiad Blynyddol sy'n cynnwys mewnwelediad ôl-syllol o'r gwaith a gyflawnwyd gan bob un o' Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn ystod blwyddyn y Cyngor. Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23 i'r Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf 2023. Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22 i'r Cyngor Llawn ar 6 Gorffennaf 2002.

Cafodd Cyd-bwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ei sefydlu yn ystod 2016/17 (CBSMT a CBSRhCT) gyda'r nod o graffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a'i herio. Yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, darparodd y Cyngor hyfforddiant i Gynghorwyr.

Mae aelodau'r Bwrdd Adfer, Trawsnewid a Gwella yn cynnwys Aelodau'r Cabinet, caiff diweddariadau misol eu derbyn, a chaiff canlyniadau a chynnydd eu hadrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Tîm Arwain Corfforaethol. Caiff adroddiadau chwarterol eu darparu i'r Cabinet er mwyn rhoi gwybodaeth am gynnydd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau ei herio yng nghyfarfodydd Pwyllgor Craffu Cymorth ac Adnoddau Corfforaethol. Mae cyfarfodydd

Uwch Reolwyr yn eu lle ar gyfer pob cyfarwyddiaeth i gyflwyno adroddiadau ar gynlluniau cyflenwi gwasanaethau.

Mae gan y Cyngor swyddogion yn aelodau o ALARM a mentor wedi'i neilltuo i ddarparu herio gan gymheiriaid. Mae hyfforddiant staff wedi cynyddu, gan gynnwys drwy'r Sefydliad Rheoli Risg. Cynhelir hyfforddiant risg ac uwchsgilio fel rhan o gyfarfodydd y tîm arwain corfforaethol ac ar lefel gwasanaeth wrth ddiweddaru cofrestrau risgiau gweithredol/gwasanaeth. Mae taflenni ffeithiau ar-lein ar y gweill i fod ar gael i Aelodau Etholedig a swyddogion. Mae rheoli risg hefyd wedi'i gynnwys yn hyfforddiant Aelodau Etholedig, ac mae'n ffurfio rhan o Gwricwlwm y Rheolwyr a threfniadau sefydlu staff. Mae hyfforddiant rheoli risg yn parhau i fod yn orfodol i'r holl staff ac Aelodau Etholedig trwy blatfform 'Bob's Business' y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cynnwys hyfforddiant rheoli risg yn rhaglen hyfforddi'r Cynghorwyr.

Mae’r Bwrdd Cyllideb, sy’n cynnwys y Cabinet a’r Tîm Rheoli Corfforaethol, yn cwrdd yn fisol i graffu ar berfformiad gwasanaeth yn erbyn cyllidebau. Lle mae anawsterau ariannol yn bodoli, caiff y Cyfarwyddwyr, gyda’r Aelodau Portffolio Cabinet perthnasol, eu herio ac mae gofyn iddynt esbonio a darparu datrysiadau posibl. Mae’r Cabinet yn ystyried Datganiadau Monitro Cyllideb yn chwarterol.

Mae achosion busnes sy’n cefnogi cynigion am ostyngiadau yn y gyllideb yn darparu’r sail resymegol i’r opsiynau a gyflwynir a’r argymhellion a wneir. Lle y bo’n briodol, maent yn cynnwys gwybodaeth meincnodi ac asesiadau risg a chydraddoldeb. Caiff y rhain eu hystyried gan y Cabinet, Pwyllgorau Craffu, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a’r Cyngor ac ymgysylltir ac ymgynghorir â’r holl randdeiliaid yn eu cylch.

Mae Datganiadau Gosod Cyllideb, Monitro Cyllideb ac Alldro Cyllideb yn dilyn templed cyson a dyma’r fformat hefyd i adrodd i’r Bwrdd Cyllideb a’r Cabinet. Caiff y gwaith o gyflawni arbedion a gymeradwyir ei fonitro gan y Grŵp Llywio Rheoli Newid a’r Bwrdd Cyllideb.

Mae dogfennau Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Chyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys canllawiau a chyfarwyddiadau i staff ac yn rhoi manylion y trefniadau sydd yn eu lle. Maent yn cael eu hadolygu o bryd i’w gilydd i sicrhau eu bod yn parhau’n addas i’r diben ac yn berthnasol. Mae angen diweddaru’r Rheolau Gweithdrefn Ariannol ac elfennau eraill o’r Cyfansoddiad i adlewyrchu’r newidiadau a fu yn y blynyddoedd diwethaf. Mae gweithgor Cyfansoddiad wedi’i ffurfio i adolygu’r Cyfansoddiad, a bydd y rheolau gweithdrefn ariannol yn rhan o’r broses hon. Y disgwyl yw y caiff y cyfansoddiad ei gwblhau a’i gyflwyno i’r Cyngor Llawn ar ddechrau 2024.

Mae’r broses gyllideb flynyddol yn cwmpasu cynllunio ariannol tymor canolig gyda’r bwriad bod penderfyniadau’r gyllideb yn cydweddu ag amcanion llesiant, cynllunio rheoli asedau a’r

Cynllun Sefydliad Iach. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, sydd wedi'i gymeradwyo, yn cwmpasu cyfnod o bedair blynedd ac ar hyn o bryd mae cyllideb gytbwys wedi'i gosod ar gyfer blwyddyn un a diffygion cyllideb dangosol ar gyfer blynyddoedd dau i bedwar (yn seiliedig ar dybiaethau sydd wedi'u nodi).

Mae gwaith sy'n seiliedig ar risg yn hollbwysig i'r Cyngor, gan ei fod yn ceisio gwella ymwybyddiaeth risg staff a gwella rheolaeth gyffredinol. Drwy fabwysiadu dull archwilio sy'n seiliedig ar risg, mae cysylltiad clir rhwng y risgiau sylweddol a nodwyd yng Nghofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor a'r gwaith a wnaed gan yr Archwilwyr Mewnol i roi sicrwydd yn erbyn y rhain. O ganlyniad, y man cychwyn ar gyfer dull y cynllun archwilio yw dealltwriaeth o amcanion a risgiau'r Cyngor.

Caiff y Cynllun Archwilio Mewnol ei lunio gan ddefnyddio strategaeth sy'n seiliedig ar risg. Mae adroddiadau Archwilio Mewnol unigol yn rhoi barn sicrwydd ar lywodraethu, rheoli risg a threfniadau rheolaeth fewnol.

Lluniwyd yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23, sy'n cynnwys barn gyffredinol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, ac fe'i cyflwynwyd i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ar 12 Mehefin 2023. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheolaeth fewnol, y trefniadau rheoli risg a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer 2022/2023 oedd lefel resymol o sicrwydd.

Yn ystod 2021, derbyniodd aelodau etholedig ac aelodau craffu hyfforddiant ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ym mis Mai 2022, daeth y newidiadau canlynol yn Adrannau 116 - 118 o'r Ddeddf i rym:

- Rhaid i draean o aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn bersonau lleyg a benodir gan y Cyngor.
- Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei gadeirio gan aelod lleyg a etholir gan y Pwyllgor.
- Gall yr Is-Gadeirydd a etholir gan y Pwyllgor fod yn Gynghorydd neu'n aelod lleyg ond ni chaiff fod yn aelod o Gabinet yr Awdurdod (Gweithrediaeth) nac yn gynorthwyydd i'w Bwyllgor Gwaith.

Mae cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Archwilwyr Allanol yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r holl gyfarfodydd yn cael eu cofnodi; cyhoeddir y cofnodion ac mae'r rhain ar gael i'r cyhoedd. Mae cofnodion ac agendâu'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal a'u cadw ar system gweinyddiaeth ddemocrataidd y Cyngor.

Cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad cenedlaethol 'Gwella ein Perfformiad: mynd i'r afael â thwyll yng Nghymru', yn 2020 a nododd nifer o argymhellion cenedlaethol a lleol. Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn ac mae eisoes wedi ymateb i rai o'r materion a godwyd. Mae'r Gofrestr Risgiau Twyll yn y broses o gael ei chwblhau yn ystod 2023/24 gan y Swyddog Twyll a benodwyd yn ddiweddar. Bydd gweithredu'r Gofrestr Risgiau Twyll yn sicrhau bod yr holl argymhellion sy'n weddill ar gyfer adroddiad Archwilio Cymru wedi'u gweithredu.

Cyflwynwyd Asesiad o Gynnydd y Cyngor i Fynd i'r Afael â Phryderon Allweddol i Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2021. Cyflwynodd yr adroddiad asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor ar fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn llythyr Archwilio Cymru a roddwyd i'r Cyngor ym mis Mai 2019, ynghyd â'r rhai a nodwyd yn adroddiad John Gilbert ym mis Medi 2019, ac adroddiad Asesiad Cyflym y Bwrdd Gwella a Sicrwydd ym mis Rhagfyr 2019. Yn yr adroddiad, nododd Archwilio Cymru yr heriau presennol sy'n wynebu'r Cyngor, a'r themâu/meysydd allweddol yr oedd angen i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt:

Yn ystod mis Mawrth 2022, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y byddai'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd yn dod i ben o 31 Mawrth 2022. Roedd hyn yn seiliedig ar asesiad y Bwrdd Gwella a Sicrwydd bod y Cyngor yn gallu cynnal ei welliant ei hun. Roedd hyn yn canolbwyntio ar y cynnydd sylweddol neu gyrhaeddiad llawn o'r amcanion y cytunwyd arnynt.

Caiff yr argymhellion a'r camau gweithredu eu monitro ar system Cynllun Gweithredu Archwilio'r Cyngor, ac mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn ymgymryd â'r monitro yn rheolaidd.

Mae Swyddog Diogelu Data y Cyngor yn aelod o Grŵp Swyddogion Diogelu Data Cymru Gyfan, Fforwm Swyddogion Diogelu Data Cymru Gyfan ar gyfer Ysgolion a Fforwm Gwybodaeth De Cymru lle caiff materion ynglŷn â rhannu gwybodaeth bersonol eu trafod. Mae'r Cyngor wedi creu a chynnal Fforwm Rhanbarthol Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) Cwm Taf gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Addysgu Cwm Taf Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBRhCT) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) yn fisol. Mae gan y Cyngor Fforwm Llywodraethu Gwybodaeth sy'n cael ei gadeirio gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth, y Prif Weithredwr, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr ar ran holl adrannau'r Cyngor, a chaiff ei gynnal yn chwarterol. Caiff trefniadau lleol ynghylch rhannu data eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hyn.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cynrychioli Fforwm Swyddogion Diogelu Data Llywodraeth Cymru sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Awdurdodau Lleol Cymru am unrhyw gynlluniau yn y

dyfodol i rannu data personol ledled Cymru. Mae gan y Fforwm hwn hefyd gynrychiolwyr o sefydliadau sector cyhoeddus eraill fel y GIG, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân.

Mae’r Cyngor yn aelod o Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), ac o’r herwydd bydd yn mynd i gytundebau WASPI pan fydd yn rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid sydd hefyd yn rhan o’r cytundeb. Pan na fydd rheolwr y data yn aelod o’r cytundeb, mae protocolau rhannu gwybodaeth yn eu lle a fydd o gymorth i rannu gwybodaeth bersonol.

Mae’r Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth hefyd yn eistedd ar Fwrdd Rheoli WASPI ac yn cadeirio is-grŵp Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol Cwm Taf i sicrhau bod camau rhannu gwybodaeth â phartneriaid yn briodol ac yn berthnasol ac yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

**g) Defnyddio arferion gweithio da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol.**

Mae holl agendâu, adroddiadau a chofnodion pwyllgorau yn cael eu hysgrifennu, eu cyfathrebu a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor er sylw’r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Mae'r rhain ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cynhelir pob cyfarfod pwyllgor gan ddefnyddio dulliau hybrid sy'n caniatáu mynediad o bell ar gais. Mae’r cyfarfodydd pwyllgor hyn yn cael eu recordio a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Caiff adroddiadau eu herio gan swyddogion fel rhan o’r trefniadau llywodraethu (e.e. Grŵp Llywio Adfer, Trawsnewid a Gwella) a chyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor trwy'r Tîm Rheoli Corfforaethol a chyfarfodydd Rheolwyr Gwasanaethau. Mae hyn yn fodd o sicrhau cydbwysedd rhwng y lefel gywir o wybodaeth ar gyfer tryloywder a’r gallu i wneud penderfyniad cywir.

Mae Aelodaeth y Pwyllgorau, Presenoldeb, Datganiadau mewn Cyfarfodydd, Buddiannau Cofrestredig a Chynrychiolaeth Cynghorwyr ar Gyrff Allanol, yn cael eu monitro a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor a'u cynnwys yn Adroddiadau Blynyddol y Cynghorwyr.

Caiff adroddiad ar y Taliadau a roddir i Gynghorwyr etholedig ei gyhoeddi’n flynyddol ar Wefan y Cyngor a'i ddiweddaru gydag unrhyw newidiadau trwy gydol y flwyddyn ariannol. Mae'r holl wybodaeth hon hefyd yn cael ei hadrodd i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW).

Yn 2021/22 gwnaeth yr adroddiad hunanasesu ddisodli’r Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Bydd yr adroddiad hunanasesu ar gyfer 2022/23 yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2023.

Cyflwynir Datganiadau Ariannol Blynyddol er cymeradwyaeth y Cyngor Llawn yn dilyn archwiliad allanol gan Archwilio Cymru. Mae hyn yn ofyniad statudol. Fel rhan o gymeradwyaeth flynyddol y Cyngor o Gyllideb y flwyddyn nesaf ("Gofynion y Gyllideb a'r Dreth Gyngor – Dadl ar Gyflwr y Cyngor"), bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rhoi sylwadau ar gadernid yr amcangyfrifon a pha mor ddigonol yw'r cronfeydd wrth gefn.

Dangosir y ffordd y defnyddir adnoddau'r Cyngor i gyfrannu at yr Amcanion Llesiant yn Adroddiad y Gyllideb.

Mae argymhellion neu gynigion er mwyn gwella a dderbynnir oddi wrth Archwilio Cymru hefyd yn cael eu hystyried. Rhoddir ystyriaeth i'r crynodebau archwilio blynyddol ac adroddiadau pwrpasol wrth ddylunio camau gwella.

Cyflwynir diweddariadau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'r Cyngor hefyd cyn iddynt gael eu cymeradwyo'n ffurfiol.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon Blynyddol yn cael ei lunio yn ôl Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) y mae pob Awdurdod Lleol yn ei ddilyn. Mae hyn yn sicrhau cysondeb o ran adrodd sy'n caniatáu cymariaethau a meincnodi ystyrlon. Caiff cwblhau a chyhoeddi eu llywodraethu gan gyfraddau amser statudol. Caiff data perfformiad cyfyngedig ei gynnwys yn y cyfrifon blynyddol wedi'u harchwilio.

Cynhelir asesiad blynyddol o'r modd y caiff yr egwyddorion sy'n rhan o'r Fframwaith Llywodraethu eu cymhwyso. Caiff y broses asesu hon a chanlyniadau'r asesiad eu cyhoeddi yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r broses asesu yn cynnwys cymharu trefniadau presennol y Cyngor yn erbyn y rhestr wirio a gyhoeddir gan CIPFA/SOLACE. Caiff y rhestr wirio hon ei diweddaru gan swyddogion allweddol, a darperir tystiolaeth i ategu unrhyw newidiadau a fu yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhestr wirio, y gwerthusiadau a'r dystiolaeth yn cael eu gwerthuso'n annibynnol gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol. Bydd y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac Archwilio Cymru yn adolygu ac yn gwerthuso'r rhestr wirio, unrhyw gamau gwella sy'n deillio o'i chwblhau, a fersiwn drafft y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Mae camau gweithredu ar gyfer gwelliant yn cael eu cynnwys yn system monitro cynllun gweithredu corfforaethol y Cyngor sef y 'System AAP', neu Gynlluniau Gweithredu Archwilio ac Arolygu. Mae'r system AAP yn monitro Adroddiadau Archwilio, Rheoleiddio ac Arolygu Allanol a'u gweithredoedd/argymhellion. Mae hyn yn cynnwys gwirio perfformiad yn yr holl adroddiadau a chynnal system fonitro. Caiff adroddiadau eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli

Corfforaethol a'r Tîm Arwain Corfforaethol gan gynnwys diweddariad am gynnydd a wnaed yn erbyn pob cam gweithredu / argymhelliad. Gall y Pwyllgor Llywodraethu / Archwilio ddefnyddio'r data yma i lywio trafodaethau a/neu gallant gael mynediad i'r data os yw'n ofynnol.

Caiff heriau cymheiriaid, adolygiadau ac arolygiadau gan gyrff Rheoleiddio eu croesawu fel modd o ddarparu sicrwydd pellach ynghylch cyflenwi gwasanaethau neu i ddynodi cyfleoedd i wella. Mae cysylltiadau da yn bodoli ag Archwilio Cymru, ESTYN, Rheoleiddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (Arolygiaeth Gofal Cymru) a rheoleiddwyr, comisiynwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Cynhaliwyd mwy o waith partneriaeth a'r arfer o herio gan gymheiriaid fel rhan o'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella ac yn ymateb y Cyngor i effeithiau pandemig Covid-19.

Mae nifer o drefniadau cydwasanaethau yn bodoli y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt. Caiff cydwasanaethau eu cynnal gan Awdurdod Arweiniol, ac mae'r gwasanaethau hynny'n dilyn y trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle gan yr Awdurdodau Arweiniol hynny. Mae trefniadau penodol eraill yn eu lle hefyd ar gyfer adrodd ar berfformiad, defnyddio adnoddau a materion llywodraethu pwysig eraill sydd wedi'u sefydlu ar gyfer gwahanol bartneriaethau neu gydwasanaethau.

Dechreuodd y Cyngor ar drefniant cydwasanaethau ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol. Dechreuodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar weithgarwch gweithredol ym mis Ebrill 2019 a chaiff ei weithredu ar y cyd rhwng Cynghorau Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Gwnaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ymgymryd â rhaglen gynhwysfawr flynyddol o waith yn seiliedig ar gynllun lle mae'r risgiau wedi'u hasesu. Yn ystod 2022/23, cyflwynwyd adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y cynllun i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Gorffennaf 2022 (fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol), 24 Hydref 2022 ac 16 Ionawr 2023.

Mae gan y Cyngor Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n weithredol ac yn effeithiol ac sy'n cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)(Diwygio) 2018. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cydymffurfio â chanllawiau arferion gorau ac maent wedi'u diweddaru i adlewyrchu Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021. Yn unol â gofynion y Ddeddf, penodwyd aelodau Lleyg fel bod traean o'r aelodau yn aelodau Lleyg o fis Mai 2022. Etholwyd aelod Lleyg yn Gadeirydd y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2022.

Ymgynghorir â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Tîm Rheoli Corfforaethol a swyddogion eraill ar feysydd i'w cynnwys yn y Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol. Ar ddiwedd y flwyddyn

ariannol, mae Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn ysgrifennu Adroddiad Blynyddol ac yn darparu barn gyffredinol ar yr amgylchedd rheoli, rheoli risg a threfniadau llywodraethu yn y cyngor, gan ddefnyddio'r gwaith a gwblhawyd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r farn hon hefyd yn cael ei chynnwys yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ac yn llywio'r Datganiad hwnnw.

Mae Archwilio Cymru, fel Archwilwyr Allanol y Cyngor, yn cynnal rhaglen flynyddol gynhwysfawr o waith y maent yn adroddi arni. Mae dogfennau Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Chyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys canllawiau a chyfarwyddiadau i staff ac yn rhoi manylion y trefniadau sydd yn eu lle.

## 6. ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

O leiaf unwaith bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei Fframwaith Llywodraethu, gan gynnwys y system reolaeth fewnol.

Cynhelir adolygiad ac asesiad blynyddol o effeithiolrwydd y modd y cymhwysir egwyddorion y Fframwaith Llywodraethu. Ymhlith y rhai sy'n ymwneud â hyn mae nifer o swyddogion allweddol ac aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, a hefyd Cynghorwyr drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae'r broses asesu yn cynnwys cymharu trefniadau presennol y Cyngor yn erbyn y rhestr wirio a gyhoeddir gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) / Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE). Caiff y rhestr wirio hon ei diweddaru gan swyddogion allweddol. Darperir tystiolaeth i ategu sylwadau'r rhestr wirio wedyn caiff y gwerthusiadau a'r dystiolaeth eu gwerthuso'n annibynnol gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol. Bydd fersiwn ddrafft o'r Datganiad yn cael ei hadolygu a'i gwerthuso gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a hefyd gan Archwilio Cymru.

Caiff y broses asesu a chanlyniadau'r asesiad eu cyhoeddi yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol a swyddogion allweddol y Cyngor adolygiad yn seiliedig ar ganllawiau CIPFA/SOLACE i gwblhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Cynhaliwyd adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu presennol ac ni wnaed unrhyw argymhellion.

Gwnaed nifer o argymhellion i gryfhau'r trefniadau llywodraethu yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20. Ni wnaed unrhyw argymhellion newydd yn dilyn adolygiad o Ddatganiadau Llywodraethu Blynyddol 2020/21 na 2021/22. Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella ac ni wnaed argymhellion dilynol ar gyfer 2022/23. O gyfanswm o 11 o argymhellion a wnaed, mae 9 wedi'u rhoi ar waith, ac mae 2 yn dal i fod wedi'u rhoi ar waith yn rhannol fel y nodir isod:

| Rhif | Argymhelliad | Cynnydd |
|---|---|---|
| 8 | Mae angen diweddaru Rheolau Gweithdrefn Ariannol ac elfennau eraill o'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau a fu dros y blynyddoedd diwethaf. | **Wedi'i weithredu'n rhannol.**<br><br>Sefydlwyd gweithgor Cyfansoddiad i adolygu'r Cyfansoddiad. Bu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn allweddol wrth sicrhau cyfreithwyr allanol i ddarparu drafft diwygiedig o Gyfansoddiad model ar gyfer Cymru Gyfan a gaiff ei ddiwygio a'i fabwysiadu.<br><br>Y disgwyl yw y caiff y cyfansoddiad ei gwblhau a'i gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Medi 2023. Bydd y rheolau gweithdrefn ariannol yn rhan o'r broses hon. |
| 11 | Mae adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn rhan o'r her ynghylch ffurflenni chwarterol, ffurflenni statudol, cyfarfodydd pwyllgorau craffu, a chyfarfodydd bwrdd hunanwerthuso a pherfformiad. Mae angen adolygu'r gwaith yma er mwyn cydweddu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chyd-fynd â Chynllun Gwella'r Cyngor. | **Wedi'i weithredu'n rhannol.**<br><br>Yn y tîm data mae swyddogion yn parhau i ddatblygu'r dangosfwrdd corfforaethol yn ogystal â gweithio gydag adrannau eraill i greu dangosfyrddau i'w defnyddio i reoli data.<br><br>Mae'r system AAP yn ei lle ac yn gweithio, mae gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ddiweddariadau misol a chyflwynir adroddiadau chwarterol i GAC.<br><br>Bydd Grŵp Llywio a Bwrdd Adfer, Trawsnewid a Gwella yn newid i Grŵp Llywio a Bwrdd Llesiant Corfforaethol (enwau i'w penderfynu o hyd). Mae'r agweddau sy'n weddill o'r cynllun RTI wedi'u hadolygu ac os oes angen byddant yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Corfforaethol. |

| Rhif | Argymhelliad | Cynnydd |
|---|---|---|
| | | |

Drwy gydol 2022/23 cynhaliodd ac adolygodd y Cyngor ei system o reolaeth fewnol mewn nifer o ffyrdd; yn benodol:

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol wedi cynnal adolygiadau a gynlluniwyd o'r gweithdrefnau rheoli mewnol, a threfniadau rheoli risg a llywodraethu ar draws adrannau ac ar draws amryw swyddogaethau yn y Cyngor. Cyhoeddwyd adroddiadau ar ôl cwblhau aseiniadau a'u dosbarthu i'r rheolwyr. Mae holl argymhellion Archwilio Mewnol yn destun proses ddilynol reolaidd, gydag unrhyw farn *Sicrwydd Cyfyngedig* neu *Dim Sicrwydd* yn destun adolygiad archwilio dilynol.

Cynhaliwyd archwiliadau yn ystod 2022/23 gan ddefnyddio dull hybrid o ymweliadau ar y safle (lle bo angen), o bell gan ddefnyddio fideo-gynadledda (e.e. Microsoft Teams) ac dulliau digidol fel sail i gynnal cyfarfodydd a rhannu dogfennau.

Mae cofnodion ac agendâu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dangos bod archwiliadau mewnol, archwiliadau allanol (Archwilio Cymru) ac adroddiadau asiantaethau arolygu/rheoleiddio allanol eraill, wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor. Maen nhw hefyd yn dangos bod swyddogion wedi'u galw i ymddangos gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i drafod eu hadroddiadau a'u cynlluniau gweithredu perthnasol, ac i gyflwyno diweddariadau pellach ar gynnydd yng nghyfarfodydd dilynol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cafodd Adroddiad yr Archwiliad Mewnol Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23, sy'n ymgorffori barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ei gyflwyno i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ar 12 Mehefin 2023.

Wrth ystyried canlyniadau'r gwaith archwilio mewnol a gwblhawyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23, canfuwyd bod y rheolaethau mewnol a rheoli risg yn cynnig *Sicrwydd Rhesymol*. Mae'r codau categori sicrwydd archwilio i'w gweld yn Atodiad 2.

O ystyried y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â phryderon blaenorol ynghylch llywodraethu, *Sicrwydd Rhesymol* yw barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu hefyd.

Felly, barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith y Cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar gyfer 2022-23 yw:

## *Sicrwydd Rhesymol*

Mae'r pwyllgorau craffu wedi archwilio nifer o faterion fel rhan o'u rhaglen waith yn 2022/23. Cyflwynwyd y rhain yn yr Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf 2023.

Ymhlith y wybodaeth a gaiff ei hystyried er mwyn llunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol mae gwybodaeth rheoli perfformiad, gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, gwaith a wnaed gan yr Archwiliwr Allanol ac asiantaethau arolygu allanol eraill, gwaith Craffu, Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheolaeth Fewnol yn cynnwys gweithdrefnau, codau ymddygiad a pholisïau a rheolaethau rheolaeth ariannol fel y'u hamlinellir yng nghanllawiau CIPFA/SOLACE.

Ym mis Tachwedd 2019, gwnaeth Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) lansio'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol. Datblygwyd y Cod hwn yng nghyd-destun pryderon Cynyddol ynglŷn â chadernid a chynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol. Mae'r Cod yn cyflwyno'r egwyddorion a ddylai arwain awdurdodau wrth iddynt reoli eu harian a'r safonau penodol y dylent, yn y man lleiaf, geisio eu cyflawni. Mae'n egluro sut y dylai Prif Swyddogion Cyllid fodloni eu cyfrifoldeb statudol dros weinyddiaeth ariannol dda fel sy'n ofynnol yn adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac yn pwysleisio cyfrifoldeb ariannol cyfunol yr arweinyddiaeth gyfan gan gynnwys yr aelodau etholedig perthnasol.

Drwy gydymffurfio ag egwyddorion a safonau'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol, bydd modd i awdurdodau ddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Er bod y Cod wedi'i lunio i fod yn hyblyg i natur, anghenion ac amgylchiadau awdurdodau unigol, lle pob awdurdod unigol yw penderfynu i ba raddau y mae'n cydymffurfio â'r Cod a nodi pa gamau y mae'n dymuno eu cymryd er mwyn bodloni'r safonau y mae'r Cod yn eu disgrifio.

Gwnaeth y Cyngor asesiad o'i gydymffurfiaeth bresennol â'r chwe egwyddor (arweinyddiaeth, atebolrwydd, tryloywder, safonau, sicrwydd a chynaliadwyedd) a'r 17 o Safonau a amlinellwyd yn y Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol. Nododd yr asesiad y gall y Cyngor ddangos cydymffurfiaeth â phob un o'r Safonau, ond caiff ei gydnabod y gellir gwneud gwelliannau pellach i wella cydymffurfiaeth yn ystod 2023/24.

Mae'r Materion Llywodraethu Arwyddocaol a ddynodwyd ar gyfer 2022/23 i'w gweld yn adran 7 ac maen nhw'n cymryd i ystyriaeth y diffiniad a ddynodwyd yn Atodiad 1.

Mae'r Materion Llywodraeth Arwyddocaol a ddynodwyd yn 2021/22 ynghyd â'r sefyllfa bresennol a ddiweddarwyd o ran eu statws wedi'u cynnwys yn adran 8.

## 7. MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL 2022/23

| Materion | Sefyllfa'r DLlB a'r Camau a Gymerwyd / a Gynlluniwyd 2022/23 |
|---|---|
| **Pwysau Ariannol: Adnoddau ariannol cyfyngedig yn erbyn galw cynyddol am wasanaethau a phrosiectau cyfalaf yn peri pwysau cyllideb sy'n effeithio ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.**<br><br>**E.e. Gostyngiad yn yr arian oddi wrth Lywodraeth Cymru, diffyg buddsoddiad incwm, derbynebau cyfalaf, pecynnau gofal costus, gostyngiadau mewn arian grant.** | Cymeradwyodd y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig (Cynllun Ariannol) 2022/23 i 2025/26 gan y Cyngor ar 2 Mawrth 2022 a dynododd amcangyfrif diwygiedig o ddiffyg cyllideb o £16.4 miliwn dros y cyfnod o 4 blynedd 2022/23 i 2025/26. Cafodd Cynllun Ariannol 2023/24 i 2026/27 ei gyflwyno i'w gymeradwyo i'r Cyngor ar 8 Mawrth 2021 a dynododd amcangyfrif o ddiffyg cyllideb cronnol o tua £23.3 miliwn dros y cyfnod yn seiliedig ar dybiaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol.<br><br>Er i'r Cyngor sicrhau bod ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn gydnaws â'i flaenoriaethau a'i amcanion llesiant, rhaid gwerthfawrogi bod y Cynllun hwn yn rhaglen dreigl sy'n cael ei diweddaru'n barhaus i ddiwallu amgylchiadau, datblygiadau a blaenoriaethau newydd. O ganlyniad, cydnabuwyd bod angen cryn dipyn o waith o hyd i gysoni'r gofynion gwariant yn llawn â'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a'r cyllid oedd ar gael. Mae Dyluniad Model Gweithredu'r Cyngor yn diffinio'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni'i fusnes, ac mae'n ategu Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, yr Amcanion Llesiant a "Strategaethau ar Dudalen" y Prif Swyddog. Bydd y Bwrdd Masnachol yn monitro cyflawniad yn erbyn y mesurau llwyddiant a'r deilliannau dymunol. At hynny, mae'r Prif Swyddog Cyllid yn monitro cynaliadwyedd a chydnerthedd ariannol y Cyngor.<br><br>Argymhellir y bydd y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol yn cael ei gosod ar leiafswm o £5.723 miliwn yn ystod cyfnod Cynllun Ariannol 2023/24 i 2026/27. Byddai hyn yn galluogi'r hyblygrwydd i'r Cyngor ymateb yn briodol i'r risg o orwariant cyllidebol posibl mewn cyllidebau gwasanaeth cyfnewidiol yn ogystal â mynd i'r afael â goblygiadau ariannol pwysau demograffig. Nid yw'n cael ei ystyried yn ddoeth i'r Cyngor ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol ymhellach i gefnogi cynlluniau cyllideb refeniw'r dyfodol oherwydd y risg annerbyniol i'r Cyngor a'i adael yn agored i lefel annigonol o gronfeydd wrth gefn i fynd i'r afael â gorwariant refeniw posibl yn y dyfodol. Yn ychwanegol, mae lefel a pha mor ddigonol yw cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor hefyd yn destun craff gan reoleiddwyr allanol.<br><br>Yn dilyn y cynnydd o +7% yn y setliad ar gyfer 2023/24, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu setliadau dangosol o +3.1% ar gyfer 2024/25. |

| Materion | Sefyllfa’r DLlB a’r Camau a Gymerwyd / a Gynlluniwyd 2022/23 |
|---|---|
| | Oherwydd yr argyfwng costau byw, wrth i chwyddiant gynyddu’n ddi-baid, cyfraddau’r banc yn cynyddu, adfer wedi pandemig Covid, cynnydd mewn cyflogau a galwadau newydd ychwanegol, mae’r Cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol o ganlyniad i gostau ychwanegol, colli incwm a chynorthwyo’r economi leol a thalwyr y dreth gyngor. |
| **Materion Capasiti i’r Cyngor** | Gyda'r cyfyngiadau cyllidebol presennol a'r angen i leihau gwariant, mae materion capasiti i'r cyngor yn parhau i fod yn risg. Byddwn yn parhau i weithio gydag adrannau i edrych ar gynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau i gapasiti yn ystyried effeithiau gwasanaeth neu sefydliadol. Gallai colli staff â phrofiad a sgiliau arwain at ddarpariaeth anffafriol o wasanaethau, methu â bodloni amcanion llesiant y Cyngor neu gynnydd yn y gyllideb pe bai angen prynu arbenigedd i mewn. |
| **Cyrhaeddiad Addysgiadol** | Mae’r polisi Codi Dyheadau, Codi Safonau yn parhau i fod yn sbardun ar gyfer gwella ysgolion ar draws pob ysgol. Cynhaliwyd nifer o weithdai eleni i ystyried yr ymrwymiadau yn y strategaeth hon ac a ydynt yn parhau i fod yn berthnasol. Bydd strategaeth ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i’r Cyngor ym mis Ionawr 2024. Mae'r cwricwlwm newydd yn cyflwyno heriau mewn perthynas â mesurau atebolrwydd ac mae gwaith yn parhau i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn ymwybodol o gynnydd pob dysgwr. |
| **Rheoli Newid** | Mae ysgolion yn wynebu pwysau cynyddol yn wyneb y gyllideb, newid cwricwlwm, gweithredu ALNET, a chyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb, ac mae angen ystyried yn ofalus sut i gynorthwyo ysgolion i reoli’r newidiadau sy’n cael eu cyflwyno fel nad ydynt yn niweidiol i blant a phobl ifanc. |
| **Cryfhau Trefniadau Rheoli Perfformiad** | I ategu ei graffu dan arweiniad aelodau, mae’r Cyngor wedi datblygu a rhoi ar waith broses adolygu perfformiad a gwella chwarterol dan arweiniad swyddogion. Caiff hyn ei ddefnyddio ochr yn ochr â phroses hunanwerthuso’r Cyngor. Mae wedi’i ymgorffori i drefniadau llywodraethu presennol y Cyngor ac mae’n rhan o Fframwaith Rheoli Perfformiad a |

| Materion | Sefyllfa'r DLlB a'r Camau a Gymerwyd / a Gynlluniwyd 2022/23 |
|---|---|
| | Sicrwydd Ansawdd y Cyngor sydd wedi'i gymeradwyo (cymeradwywyd hwn fel rhan o Gynllun Corfforaethol y Cyngor).<br><br>Datblygwyd dangosfwrdd corfforaethol i lywio cyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol. Bydd hyn yn parhau i gael ei gryfhau yn unol â gofynion y Cyngor a chaiff ei ddefnyddio yn rhan o Adroddiad Hunanasesu'r Cyngor (gan fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).<br><br>Ar lefel staff, mae'r Cyngor wedi gweithredu ei fodiwl e-berfformiad newydd. Mae hyn yn caniatáu i gyfarfodydd unigol â staff gael eu monitro'n effeithiol ac effeithlon a chanolbwyntio ar broses berfformiad. Mae hyn yn cefnogi gwella perfformiad y Cyngor ond hefyd cydbwyso capasiti a chynllunio ar gyfer olyniaeth. |
| **Cryfhau trefniadau craffu** | Yn dilyn dadansoddiad o arolwg hunanwerthuso (a gynhaliwyd gan bawb sy'n ymwneud â'r swyddogaeth graffu) a sawl gweithdy gydag Aelodau, mae'r Cyngor wedi cryfhau ymhellach ei gynlluniau gwella craffu. Mae'r Cyngor wedi parhau i ymgysylltu a gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar hyn. Bu'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda chymorth annibynnol a ddarparwyd drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (aelod o'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd a oedd ar waith oddi mewn i'r Cyngor). Darparodd cymheiriaid o Gynghorau eraill adborth ar elfennau allweddol o'r cynlluniau gwella i sicrhau bod gwella a herio parhaus wedi'u hymgorffori.<br><br>Datblygwyd rhaglenni gwaith, dan arweiniad Aelodau, ac maent yn cael eu rhoi ar waith. Mae hyn wedi cryfhau integreiddio ar draws gwaith i gyflawni strategaethau a'r blaengynlluniau ar gyfer craffu. Mae datblygiadau pellach ar waith ar gyfer y blaengynlluniau gwaith gyda fframwaith i Gadeiryddion eu defnyddio i sicrhau bod y materion cywir yn destun craffu. Mae hyn yn rhan o'r cynllun gwella craffu drwy ddull craffu ar y Materion Cywir yn y Ffordd Gywir ar yr Amser Cywir ac yn y Lle Cywir. O'r herwydd, rhoddir pwyslais ar wahanol ffyrdd i ymgymryd â chraffu, e.e. craffu cyn penderfynu, diwrnodau ymholi, grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae ffyrdd i gynnwys y cyhoedd yn y broses graffu hefyd yn cael eu datblygu ac yn cael eu hymgorffori yn y rhaglenni gwaith. |

| Materion | Sefyllfa'r DLlB a'r Camau a Gymerwyd / a Gynlluniwyd 2022/23 |
|---|---|
| | Datblygwyd canllaw ymarferol i graffu ac fe'i rhannwyd â'r holl Aelodau i'w cynorthwyo yn eu rolau. Caiff hyfforddiant ei ddarparu, gan ganolbwyntio ar ychwanegu gwerth a rôl craffu (yn unol â 'Rhaglen Wella – Trosolwg o'r Deunyddiau Hyfforddiant' Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru). Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio deunyddiau ar-lein a hyfforddiant e-ddysgu a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae gweithdai hyfforddiant penodol yn cael eu darparu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (e.e.Cadeirio Craffu). Mae newidiadau mwy ymarferol hefyd yn cael eu rhoi ar waith megis cyfarfodydd ymlaen llawn cynharach i alluogi i wybodaeth ychwanegol gael ei darparu neu fwy o gyfle i ddatblygu cwestiynau a llwybrau ymholi. Mae Cymorthfeydd Craffu a Chyfarfodydd Technegol Chwarterol wedi eu datblygu i ganiatáu i rai sy'n craffu feithrin gwell dealltwriaeth o faterion i wella lefel y craffu.<br><br>Mae nod trosfwaol 'gwneud gwahaniaeth gyda'n gilydd' yn cael ei brofi gydag Aelodau i ffurfio sail i strategaeth ar dudalen ynghylch craffu. Bydd hyn yn helpu i asesu effaith y craffu. |

## 8. MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL 2021/22 - DIWEDDARIAD

| Materion | SEFYLLFA BRESENNOL |
|---|---|
| **Pwysau Ariannol: Adnoddau ariannol cyfyngedig yn erbyn galw cynyddol am wasanaethau a phrosiectau cyfalaf yn peri pwysau cyllideb** | Cymeradwyodd y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig (Cynllun Ariannol) 2021/22 i 2024/25 gan y Cyngor ar 3 Mawrth 2021 a dynododd amcangyfrif diwygiedig o ddiffyg cyllideb o £13 miliwn dros y cyfnod o 4 blynedd 2021/22 i 2024/25. Cafodd Cynllun Ariannol 2022/23 i 2025/26 ei gyflwyno i'w gymeradwyo i'r Cyngor ar 3ydd Mawrth 2021 a dynododd amcangyfrif o ddiffyg cyllideb cronnol o tua £16.4 miliwn dros gyfnod y Cynllun Ariannol yn seiliedig ar dybiaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol.<br><br>Er i'r Cyngor sicrhau bod ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn gydnaws â'i flaenoriaethau a'i amcanion llesiant, rhaid gwerthfawrogi bod y Cynllun hwn yn rhaglen dreigl sy'n cael ei diweddaru'n barhaus i ddiwallu amgylchiadau, |

| Materion | SEFYLLFA BRESENNOL |
|---|---|
| **sy'n effeithio ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.**<br><br>**E.e. Gostyngiad yn yr arian oddi wrth Lywodraeth Cymru, diffyg buddsoddiad incwm, derbynebau cyfalaf, pecynnau gofal costus, gostyngiadau mewn arian grant.** | datblygiadau a blaenoriaethau newydd. O ganlyniad, cydnabuwyd bod angen cryn dipyn o waith o hyd i gysoni'r gofynion gwariant yn llawn â'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a'r cyllid oedd ar gael. Mae Dyluniad Model Gweithredu'r Cyngor yn diffinio'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni'i fusnes, ac mae'n ategu Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, yr Amcanion Llesiant a "Strategaethau ar Dudalen" y Prif Swyddog. Bydd y Bwrdd Perfformiad yn monitro cyflawniad yn erbyn y mesurau llwyddiant a'r deilliannau dymunol. At hynny, mae'r Prif Swyddog Cyllid yn monitro cynaliadwyedd a chydnerthedd ariannol y Cyngor.<br><br>Argymhellir y bydd y Cronfeydd Wrth Gefn Gyffredinol yn cael ei gosod ar leiafswm o £5.722 miliwn yn ystod cyfnod Cynllun Ariannol 2022/23 i 2025/26. Byddai hyn yn galluogi'r hyblygrwydd i'r Cyngor ymateb yn briodol i'r risg o orwariant cyllidebol posibl mewn cyllidebau gwasanaeth cyfnewidiol yn ogystal â mynd i'r afael â goblygiadau ariannol pwysau demograffig. Nid yw'n cael ei ystyried yn ddoeth i'r Cyngor ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol ymhellach i gefnogi cynlluniau cyllideb refeniw'r dyfodol oherwydd y risg annerbyniol i'r Cyngor a'i adael yn agored i lefel annigonol o gronfeydd wrth gefn i fynd i'r afael â gorwariant refeniw posibl yn y dyfodol. Yn ychwanegol, mae lefel a pha mor ddigonol yw cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor hefyd yn destun craff gan reoleiddwyr allanol.<br><br>**Wedi'i ddiweddaru ar 2022/23**<br>Derbyniodd y Cyngor setliad refeniw Llywodraeth Cymru o +7.0% ar gyfer 2023/24 gyda setliadau cyfartalog dangosol ar gyfer Cymru gyfan o +3.1% ar gyfer 2024/25. Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd y Cyngor gyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24, gyda diffygion cyllideb o £10.5 miliwn, £5.6 miliwn a £7.2 miliwn wedi'u rhagamcanu ar gyfer 2024/25, 2025/26 a 2026/27 yn eu trefn, yn seiliedig ar dybiaethau yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae costau chwyddiant sy'n cynyddu'n ddi-baid, cynnydd mewn cyfraddau llog, cynnydd digynsail mewn costau ynni a dyfarniad cyflog y tu hwnt i'r hyn a gyllidebwyd wedi cyfrannu at y diffyg cyllideb ar gyfer 2024/25. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol gyda'r Cabinet yn mynd ati'n weithredol i lunio cynigion i fynd i'r afael â'r diffygion cyllideb a ragamcanir. Gweler Adran 6 – 'Materion Llywodraethu Arwyddocaol 2022/23' i weld y sefyllfa bresennol a'r camau a gymerwyd / gynlluniwyd i fynd i'r afael â'r mater hwn. |

| Materion | SEFYLLFA BRESENNOL |
|---|---|
| **Goblygiadau pellach COVID-19.** | Cafodd goblygiadau Covid-19 effaith sylweddol ar y perfformiad ariannol yn 2021/22 a heb gymorth Llywodraeth Cymru byddai wedi bod yn amhosibl cadw oddi mewn i’r Gyllideb. Yn dilyn y cynnydd o +9% yn y setliad ar gyfer 2022/23, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu setliadau dangosol o +3.5% ar gyfer 2023/24 a +2.4% ar gyfer 2024/25. Oherwydd yr argyfwng costau byw, wrth i chwyddiant gynyddu’n ddi-baid a chyfraddau’r banc yn cynyddu, ynghyd ac adfer wedi pandemig Covid, mae’r Cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol o ganlyniad i gostau ychwanegol, colli incwm a chynorthwyo’r economi leol a thalwyr y dreth gyngor.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol ar gyfer 2021/22 yn gyfan i gynorthwyo Awdurdodau Lleol wrth iddynt wynebu heriau ariannol sylweddol yn sgil costau ychwanegol a cholli incwm. Heb gymorth ariannol parhaus gan Lywodraeth Cymru byddai’r Cyngor wedi wynebu diffygion cyllideb sylweddol a fyddai’n galw am leihau gwasanaethau a/neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn.<br><br>Gosododd y Cyngor nifer o egwyddorion sy’n cydweddu â Chynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella’r Cyngor ac adeiledir arno wrth i’r Cyngor adfer o’r pandemig a pharhau ar ei daith o drawsnewid a gwella.<br><br>**Wedi'i ddiweddaru ar 2022/23**<br>Daeth cymorth Llywodraeth Cymru drwy’r Gronfa Galedi i ben ar 31 Mawrth 2022, ac eithrio cymorth ar gyfer costau prydau ysgol am ddim, cynllun hunanynysu, cynllun gwella Tâl Salwch Statudol a thaliadau tanwydd Gaeaf. Trwy sylwadau’r Awdurdod Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hatgoffa o'r pwysau ariannol sylweddol y mae Awdurdodau Lleol yn parhau i’w hwynebu. |
| **Effaith y llifogydd** | Yn ystod mis Chwefror 2020, achosodd Storm Dennis lifogydd a difrod sylweddol ar rai ardaloedd o fewn y Fwrdeistref Sirol, a bu’n rhaid i’r Cyngor gyflwyno rhestr o waith atgyweirio cyfalaf gwerth cyfanswm o £8.453 miliwn i Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 3 blynedd rhwng 2020/21 a 2022/23. Mae'r Cyngor wedi cael hysbysiad o gymorth o £5.4 miliwn ar gyfer 2020/21 i 2021/22 ac mae disgwyl cadarnhad o gymorth ariannol pellach o £3 miliwn ar gyfer 2022/23.<br><br>**Wedi'i ddiweddaru ar 2022/23** |

| Materion | SEFYLLFA BRESENNOL |
|---|---|
| **Materion Capasiti i'r Cyngor** | Mae'r Cyngor wedi derbyn £6.6 miliwn o gymorth ar gyfer prosiectau cyfalaf ar gyfer y cyfnod 2020/21 i 2022/23, gan gynnwys £2.1 miliwn ar gyfer 2022/23. Disgwylir rhagor o arian ar gyfer 2023/24 gan fod cyfran o brosiectau atgyweirio cyfalaf wedi 'llithro' i 2023/24.<br><br>Mae Archwilio Cymru, gyda chefnogaeth Bwrdd Gwella a Sicrwydd Llywodraeth Cymru, wedi mynegi pryderon ynghylch bod diffyg capasiti oddi mewn i'r Cyngor yn rhwystro cynllunio effeithiol a chynllunio ar gyfer olyniaeth mewn gwasanaethau hanfodol. Rydym wedi cynyddu capasiti mewn meysydd allweddol ar draws y Cyngor. Cynhaliwyd cyfnod cyntaf ymarferiad capasiti'r Cyngor yn ystod 2020/21 gyda buddsoddiad o £705,000 wedi'i gymeradwyo ym mis Chwefror 2021. Cynhaliwyd ail gyfnod yr ymarferiad capasiti yn ystod 2021/22 gyda buddsoddiad pellach o £725,000 wedi'i gymeradwyo ym mis Hydref 2021. Mae materion capasiti pellach posibl yn cael eu hystyried ar hyn o bryd dyn ddibynnol ar fforddiadwyedd.<br><br>**Wedi'i ddiweddaru ar 2022/23**<br>Mae problemau capasiti yn parhau mewn rhai meysydd oherwydd cyfyngiadau cyllidebol a'r angen i edrych ar leihau capasiti drwy'r broses VER/VR. Wrth i ni geisio lleihau, byddwn yn gweithio gyda'r meysydd gwasanaeth i edrych ar arbedion effeithlonrwydd a newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. |
| **Cyrhaeddiad Addysgol** | Roedd arolygiad diweddar Estyn o'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y daith sydd wedi'i hamlinellu ym mholisi Codi Dyheadau, Codi Safonau. Dyma o hyd sy'n gyrru camau gwella ysgolion ar draws yr holl ysgolion. Y mae ar waith a chael ei adnewyddu yng ngoleuni newidiadau i'r cwricwlwm a phwysau parhaus o ganlyniad i'r pandemig a'r argyfwng costau byw. Mae cydweithio'n agos â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn galluogi'r Awdurdod Lleol i fod yn gynyddol hyderus ynglŷn â pherfformiad ei ysgolion.<br><br>**Wedi'i ddiweddaru ar 2022/23**<br>Mae swyddogion wedi dechrau gweithio gyda rhanddeiliaid i adolygu'r ymrwymiadau yn y Strategaeth Codi Dyheadau, Codi Safonau. Mae'n cael ei dderbyn bod y weledigaeth, y themâu a'r nodau'n dal yn berthnasol, ond mae angen rhoi ystyriaeth bellach i effaith y pandemig nid yn unig ar gyflawni'r ymrwymiadau ond ar y camau gweithredu eu hunain. Mae'r gweithredu parhaus |

| Materion | SEFYLLFA BRESENNOL |
|---|---|
| | o ran y gweithlu yn ystod y flwyddyn hon hefyd wedi effeithio ar fonitro a gwerthuso'r camau gweithredu presennol. |
| **Cryfhau Trefniadau Rheoli Perfformiad** | I ategu ei graffu dan arweiniad aelodau, mae'r Cyngor wedi datblygu a rhoi ar waith broses adolygu perfformiad a gwella chwarterol dan arweiniad swyddogion. Caiff hyn ei ddefnyddio ochr yn ochr â phroses hunanwerthuso'r Cyngor. Mae wedi'i ymgorffori i drefniadau llywodraethu presennol y Cyngor ac mae'n rhan o Fframwaith Rheoli Perfformiad a Sicrwydd Ansawdd y Cyngor sydd wedi'i gymeradwyo (cymeradwywyd hwn fel rhan o Gynllun Llesiant Corfforaethol y Cyngor).<br><br>Datblygwyd dangosfwrdd corfforaethol i lywio cyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol. Bydd hyn yn parhau i gael ei gryfhau yn unol â gofynion y Cyngor a chaiff ei ddefnyddio yn rhan o Adroddiad Hunanasesu'r Cyngor (gan fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).<br><br>Ar lefel staff, mae'r Cyngor wedi gweithredu ei fodiwl e-berfformiad newydd. Mae hyn yn caniatáu i gyfarfodydd unigol â staff gael eu monitro'n effeithiol ac effeithlon a chanolbwyntio ar broses berfformiad. Mae hyn yn cefnogi gwella perfformiad y Cyngor ond hefyd cydbwyso capasiti a chynllunio ar gyfer olyniaeth.<br><br>**Wedi'i ddiweddaru ar 2022/23**<br>Mae'r adolygiadau perfformiad a gwelliant chwarterol wedi'u cynnal ar gyfer sawl adolygiad yn ystod y flwyddyn, ac maent wedi bod yn fuddiol er mwyn cynnal y trafodaethau ynghylch perfformiad y sefydliadau. Yn ogystal â'r swyddogion sy'n mynychu, mae aelodau Portffolio wedi bod yn mynychu rhai sesiynau. Bydd sesiynau'r adolygiadau chwarterol hyn yn parhau ond byddant yn cael eu hadolygu fel eu bod yn fwy perthnasol i gynnydd a chyflawniad amcanion llesiant y Cynllun Corfforaethol.<br>Mae'r dangosfwrdd wedi'i ddatblygu ac yn parhau i gael ei adolygu wrth i ofynion newydd ddod i'r amlwg; mae'n welliant parhaus. Mae'r sefydliad ar hyn o bryd yn trafod dangosfwrdd ar gyfer y cyhoedd, GDPR a nodi diogelwch data.<br>Mae modiwl E-berfformiad newydd ar gyfer Adnoddau Dynol bellach yn fyw. Mae angen rhywfaint o newid pellach ar y system i fod yn addas i'r diben ond bydd gofynion rheolwyr i wneud gwaith monitro effeithiol yn allweddol i berfformiad y cyngor.<br>Yn dilyn dadansoddiad o arolwg hunanwerthuso (a gynhaliwyd gan bawb sy'n ymwneud â'r swyddogaeth graffu) a sawl gweithdy gydag Aelodau, mae'r Cyngor |

| Materion | SEFYLLFA BRESENNOL |
|---|---|
| | wedi cryfhau ymhellach ei gynlluniau gwella craffu. Mae'r Cyngor wedi parhau i ymgysylltu a gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar hyn. Bu'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda chymorth annibynnol a ddarparwyd drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (aelod o'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd a oedd ar waith oddi mewn i'r Cyngor). Darparodd cymheiriaid o Gynghorau eraill adborth ar elfennau allweddol o'r cynlluniau gwella i sicrhau bod gwella a herio parhaus wedi'u hymgorffori. |
| **Cryfhau trefniadau craffu** | Datblygwyd rhaglenni gwaith, dan arweiniad Aelodau, ac maent yn cael eu rhoi ar waith. Mae hyn wedi cryfhau integreiddio ar draws gwaith i gyflawni strategaethau a'r blaengynlluniau ar gyfer craffu. Mae datblygiadau pellach ar waith ar gyfer y blaenraglenni gwaith gyda fframwaith i Gadeiryddion eu defnyddio i sicrhau bod y materion cywir yn destun craffu. Mae hyn yn rhan o'r cynllun gwella craffu drwy ddull craffu ar y Materion Cywir yn y Ffordd Gywir ar yr Amser Cywir ac yn y Lle Cywir. O'r herwydd, rhoddir pwyslais ar wahanol ffyrdd i ymgymryd â chraffu, e.e. craffu cyn penderfynu, diwrnodau ymholi, grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae ffyrdd i gynnwys y cyhoedd yn y broses graffu hefyd yn cael eu datblygu ac yn cael eu hymgorffori yn y rhaglenni gwaith. Bydd y Cyngor yn dysgu gwersi o 2021/22 i hybu'r arfer o hysbysebu lleoedd Aelodau cyfetholedig gwag ar bwyllgorau.<br><br>Datblygwyd canllaw ymarferol i graffu ac fe'i rhannwyd â'r holl Aelodau i'w cynorthwyo yn eu rolau. Caiff hyfforddiant ei ddarparu, gan ganolbwyntio ar ychwanegu gwerth a rôl craffu (yn unol â 'Rhaglen Wella – Trosolwg o'r Deunyddiau Hyfforddiant' Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru). Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio deunyddiau ar-lein a hyfforddiant e-ddysgu a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae gweithdai hyfforddiant penodol yn cael eu darparu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (e.e.Cadeirio Craffu). Mae newidiadau mwy ymarferol hefyd yn cael eu rhoi ar waith megis cyfarfodydd ymlaen llawn cynharach i alluogi i wybodaeth ychwanegol gael ei darparu neu fwy o gyfle i ddatblygu cwestiynau a llwybrau ymholi. Mae Cymorthfeydd Craffu a Chyfarfodydd Technegol Chwarterol yn cael eu datblygu i ganiatáu i rai sy'n craffu feithrin gwell dealltwriaeth o faterion i wella lefel y craffu.<br><br>Mae nod trosfwaol 'gwneud gwahaniaeth gyda'n gilydd' yn cael ei brofi gydag Aelodau i ffurfio sail i strategaeth ar dudalen ynghylch craffu. Bydd hyn yn helpu i asesu effaith y craffu. |

| Materion | SEFYLLFA BRESENNOL |
|---|---|
| | **Wedi'i ddiweddaru ar 2022/23**<br>Mae'r cyngor wedi cwblhau gwaith sylweddol i ddatblygu'r rhaglen gwella craffu. Cwblhawyd nifer o weithdai gyda'r holl aelodau a chyda chymorth annibynnol trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Wrth i'r Cyngor symud ymlaen drwy'r flwyddyn hon bydd y rhaglen waith yn cael ei hailystyried i adlewyrchu'r gofynion craffu gan edrych ar amcanion Llesiant Corfforaethol.<br>Mae proses graffu'r Cyngor wedi arwain at newid yn y broses graffu, gan archwilio mwy o ymweliadau safle, diwrnodau ymholi ac ati, traws-graffu pan fo rhywbeth yn bwnc llosg neu ar draws cyfarwyddiaethau. Edrychir ar y cynllun gwella craffu a dull y 4 R (craffu ar y Materion Cywir yn y Ffordd Gywir ar yr Amser Cywir ac yn y Lle Cywir) wrth drafod blaenraglenni gwaith.<br>Mae'r canllaw ymarferol i graffu wedi'i gwblhau ac mae ar gael ar dudalennau mewnrwyd yr Aelodau. Fel uchod, bu nifer o weithdai hyfforddiant gyda'r holl aelodau ac mae'r rhain wedi'u cwblhau. Serch hynny, os oes angen, gellir ailedrych ar y rhain i ystyried yr amcanion llesiant newydd neu'r hyn sydd angen ei drafod wrth graffu. Mae'r rhag-gyfarfodydd cynharach yn eu lle ac mae hyn yn profi'n fuddiol gan fod hyn yn rhoi mwy o amser i gwestiynau gael eu trafod neu ar gyfer trywyddau ymholi. Mae'r cyfarfodydd Chwarterol yn eu lle gyda Chadeirydd Craffu, Cyfarwyddwr, Aelod Portffolio i adolygu'r flaenraglen waith i'r dyfodol ac unrhyw faterion eraill. Bydd y rhain yn parhau yn y dyfodol.<br>Mae'r strategaeth graffu ar dudalen a hunanwerthusiad yn cael eu datblygu a byddant yn parhau i fod yn sail i drafodaeth. |
| **Cydymffurfio â'r Cwricwlwm** | Wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno, mae yna nifer o faterion ynghylch cydymffurfiaeth y gallai ysgolion eu hwynebu. Ni roddwyd ystyriaeth i'r rhain wrth i Lywodraeth Cymru roi'r Cwricwlwm ar waith ac mae'r Awdurdod Lleol ynghyd â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Canolbarth y De yn cydweithio'n agos i sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o'r rhain ac yn cydymffurfio'n llawn.<br><br>**Wedi'i ddiweddaru ar 2022/23**<br>Mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod cyflwyniad y Cwricwlwm i Gymru yn gadarnhaol ar draws yr holl ysgolion a'i cyflwynodd. Dewisodd un ysgol uwchradd a'r Uned Cyfeirio Disgyblion beidio â chyflwyno'r cwricwlwm tan fis Medi 2023 ond mae gwaith wedi'i wneud gyda'r lleoliadau hyn i sicrhau eu bod yn barod i'w rhoi ar waith. |

| Materion | SEFYLLFA BRESENNOL |
|---|---|
| **Cynlluniau a Chyfundrefnau Cynnal a Chadw Eiddo** | Mae adolygiad gan Archwilio Mewnol a gyflwynwyd yn 2021/22 mewn perthynas â Chynlluniau a Chyfundrefnau Arolygu Cynnal a Chadw Eiddo wedi derbyn barn archwilio o ddim sicrwydd. Hynny yw, ni ellir rhoi sicrwydd ar y systemau rheolaeth fewnol, llywodraethu a rheoli risg presennol.<br><br>Amcan yr archwiliad oedd gwerthuso'r system rheolaeth fewnol a rhoi barn ar ba mor ddigonol yw'r rheolaeth fewnol. Mae'r gwaith archwilio a wnaed wedi darganfod gwendidau yn y system reolaeth a hefyd lefel o ddiffyg cydymffurfiaeth â Rheolau a Pholisïau'r Awdurdod sy'n peryglu amcanion yr Awdurdod. Y farn gyffredinol ar yr amgylchedd rheolaeth fewnol oedd *Gwael* gan arwain at lunio 13 o argymhellion archwilio, gydag 8 o'r rhain yn flaenoriaeth uchel. Cytunodd y rheolwyr â'r holl argymhellion, a bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn yn cael eu monitro yn unol â gweithdrefnau monitro arferol archwilio mewnol. Bydd y maes archwilio hwn hefyd yn cael ei gynnwys yn y cynllun archwilio mewnol er mwyn cynnal adolygiad dilynol yn ystod 2022/23. Dyma'r materion allweddol a nodwyd yn yr archwiliad:<br><br>• Mae angen cynnal arolygiadau cydymffurfiaeth ar frys a'u monitro'n ofalus.<br>• Mae angen diweddaru arolygon ymweliadau cydymffurfiaeth i gynnwys gwybodaeth fanwl am yr arolygiad sy'n cael ei gynnal yn annibynnol a deddfwriaeth. Dylai unrhyw gamau gweithredu a nodir ar yr arolwg gael eu monitro i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni.<br>• Dylai'r arolygon ymweliadau cydymffurfiaeth a gwblhawyd o bell yn 2020/21 gael eu harolygu gan y Swyddog Cydymffurfiaeth Statudol i sicrhau yr eir i'r afael â'r camau gweithredu.<br>• Mae gofyn i RAMIS (system TG) gael ei ddiweddaru ar frys gan Reolwyr Adeiladau neu Swyddogion Gwasanaethau Eiddo i ddarparu gwiriad annibynnol i gadarnhau y gweithredwyr ar unrhyw waith cynnal a chadw sy'n hwyr. At hynny, dylai'r system gynnwys deddfwriaeth a chanllawiau statudol ar gyfer pob adeilad/eiddo.<br>• Mae angen diweddaru'r daenlen Monitro Contractau i sicrhau bod y manylion cywir yn cael eu cofnodi.<br>• Rhaid i gontractau gael eu hadolygu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol a'r Rheolau Caffael a Chontractio.<br>• Dylai hyfforddiant gael ei ddarparu i bob Rheolwr Adeiladau a swyddogion y mae angen iddynt ddiweddaru'r RAMIS (system TG). |

| Materion | SEFYLLFA BRESENNOL |
|---|---|
| | **Wedi'i ddiweddaru ar 2022/23**<br>Adroddwyd y mater i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Ionawr 2022. Roedd y Rheolwr Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 14 Chwefror 2022 a dywedodd fod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud ar weithredu’r argymhellion.<br><br>Yn ystod 2022/23, cynhaliodd Archwilio Mewnol adolygiad dilynol. Roedd yr adolygiad yn dangos bod ymrwymiad clir wedi'i wneud i wella ei systemau rheolaeth fewnol. O ganlyniad i hyn, rhoddwyd barn archwilio o *Sicrwydd Rhesymol*. Cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniad yr adolygiad dilynol i'r Tîm Rheoli a’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |

## Cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23

Mae llywodraethu da yn ymwneud â rhedeg pethau yn y ffordd gywir. Dyma'r modd y mae'r Cyngor yn dangos ei fod yn gwneud penderfyniadau er lles pobl yr ardal, mewn ffordd deg, gyfiawn ac agored. Mae hefyd yn gofyn am safonau ymddygiad sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau da – integriti cyfunol ac unigol, a bod yn agored ac yn onest. Dyma'r seiliau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion pobl leol. Y mae'n greiddiol i ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Heb lywodraethu da, bydd cynghorau'n cael trafferth i wella eu gwasanaethau.

**O'r gwaith adolygu, asesu a monitro parhaus a wnaed, rydym wedi dod i'r casgliad bod yma gydymffurfio cyffredinol â threfniadau llywodraethu cyfredol, ond mae nifer o welliannau wedi'u dynodi fel a nodwyd yn Adran 6 uchod sydd angen eu gweithredu er mwyn cryfhau'r trefniadau.**

**Gallwn gadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, bod y datganiad hwn yn darparu safbwynt cywir a theg.**

**Cynghorydd Geraint Thomas**
**Arweinydd y Cyngor**

**Ellis Cooper**
**Prif Weithredwr**

**Atodiad 1**

Wrth bennu'r hyn a allai gael ei gynnwys fel mater llywodraethu arwyddocaol, cafodd y canlynol ei ystyried:

Nid yw'n bosibl cael diffiniad unigol o fater llywodraethu arwyddocaol. Mae angen i Gynghorau ddefnyddio eu crebwyll wrth benderfynu a ddylid ystyried bod mater penodol yn syrthio i'r categori hwn ai peidio, ond ymhlith y ffactorau a allai fod yn ddefnyddiol wrth ddefnyddio'r crebwyll hwnnw mae'r canlynol:

- Mae'r mater wedi peryglu'n ddifrifol neu wedi atal cyflawni prif nod.
- Mae'r mater wedi arwain at yr angen i geisio arian ychwanegol i'w alluogi i gael ei ddatrys, neu wedi arwain at ddargyfeirio adnoddau'n sylweddol o agwedd arall ar y busnes.
- Mae'r mater wedi arwain at effaith faterol ar y cyfrifon.
- Mae'r pwyllgor archwilio, neu gyfwerth, wedi cynghori y dylid ei ystyried yn arwyddocaol at y diben hwn.
- Mae'r Pennaeth Archwilio wedi adrodd ei fod yn arwyddocaol, at y diben hwn, yn y farn flynyddol ar yr amgylchedd rheolaeth fewnol.
- Mae'r mater, neu ei effaith, wedi denu sylw cyhoeddus sylweddol neu wedi niweidio enw da'r sefydliad yn ddifrifol.
- Mae'r mater wedi arwain at gamau ffurfiol yn cael eu cymryd gan y Prif Swyddog Cyllid a/neu'r Swyddog Monitro.

**Atodiad 2**

## Diffiniad Barn Sicrwydd Archwilio Mewnol

| Cod Categori Sicrwydd Archwilio | |
|---|---|
| **Sylweddol** | Mae system gadarn o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn bodoli, ac mae rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol ac yn cael eu cymhwyso'n gyson i gynorthwyo i gyflawni amcanion yn y maes a archwiliwyd. |
| **Rhesymol** | Yn gyffredinol, mae system lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth gadarn ar waith. Nodwyd rhai materion, diffyg cydymffurfio neu le i wella a allai beryglu cyflawniad amcanion yn y maes a archwiliwyd. |
| **Cyfyngedig** | Nodwyd bylchau, gwendidau neu ddiffyg cydymffurfio sylweddol. Mae angen gwella'r system lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth er mwyn rheoli risgiau i gyflawni amcanion yn y maes a archwiliwyd yn effeithiol. |
| **Dim Sicrwydd** | Mae angen gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael â bylchau sylfaenol, gwendidau neu ddiffyg cydymffurfio a nodwyd. Mae'r system lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn annigonol i reoli'n effeithiol risgiau i gyflawni amcanion yn y maes a archwiliwyd. |

## Adroddiad Archwilio Arfaethedig

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

### Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (y Cyngor) am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol y Cyngor yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad Symud mewn Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifeg sylweddol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi yn gyfraith berthnasol ac mae'r DU wedi mabwysiadu safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023.
Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol, y datganiadau ariannol:

- rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2023 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifeg rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023.

### Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y Cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

### Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.
Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau i fabwysiadu sail parhaus cyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac

eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd am y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'n unol â'r canllawiau.

## Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o [enw corff llywodraeth leol a'r grŵp] a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethiant.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw cofnodion cyfrifeg digonol wedi'u cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy nhîm; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

## Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, a nodir ar dudalennau 21 i 22, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am:

- paratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi barn wir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- Mae rheolaethau mewnol fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu arnynt yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau cyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu'r Cyngor i barhau fel mater o drefn, datgelu fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail barhaus cyfrifyddu oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn ddeunydd os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.
Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- holi am reolwyr, pennaeth Archwilio Mewnol y Cyngor a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor sy'n ymwneud â:
- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honedig; ac
- y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cydnabyddiaeth gwariant, postio cyfnodolion anarferol a (ychwanegu fel sy'n briodol i'r archwiliad);
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Cyngor yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Cyngor.
- cael dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy gweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datganiadau ariannol a phrofion i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- Holi rheolwyr, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a posibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthdroi rheolaeth rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau a nodwyd yn berthnasol a risgiau posibl i dwyll i bob aelod o'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau'r Cyngor, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

## Cyfrifoldebau archwilydd eraill

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau archwiliad

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
29 Tachwedd 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ